

ECO'R WYDDFA

Rhif 74

Hydref 1982

Pris 20c

GWEDDNEWID COPA'R WYDDFA



Mae Cyngor Sir Gwynedd yn y broses o brynu'r adeilad ar gopa'r Wyddfa, sef eiddo'r Cwmni Rheilffordd ar hyn o bryd. Rhan o gynllun cyfansawdd yw hyn i ddacluso ac i wella'r cyfleusterau ar gyfer pawb, ar droed neu mewn tren, sy'n defnyddio'r Wyddfa.

Y bwriad yw gwella'r adeilad presennol o'r tu mewn a'r tu allan a'i baratoi i wrthsefyll blynyddoedd o ffyrnigrwydd yr elfennau. Deallwn, er enghraifft, y bydd teiliau o gryfder arbennig iawn yn cael eu gosod ar y muriau allanol. Honnir na ellid torri'r teiliau pan ddefnyddiwyd caib rew i'w taro'n fwrriadol.

Eisoes dechreuwyd ar y to a gobeithia'r dynion gwblhau'r rhan yma o'r gwaith cyn i'r tywydd waethgu. A hithau'n ddiwedd Medi, a'r gwynoedd cryfion a'r glawogydd yn chwipio Gwynedd gallwn werthfawrogi'r anawsterau sy'n wynebu'r

gweithwyr ar gopa'r Wyddfa. Mewn tywydd garw, er enghraifft, ni all y tren gario'r defnyddiau angenrheidiol iddynt.

Amcangyfrifir y bydd yr holl gynllun yn costio tua £250,000 - pris na allai'r Cwmni Rheilffordd ei dalu am yr holl welliannau arfaethedig. Mae'r Cyngor Sir, y perchennog newydd, yn gallu cael grant gan Awdurdod Datblygu Cymru ac ni fydd trethdalwyr Gwynedd yn talu'r un ddimai'n ychwanegol ar eu trethi. Ar ôl cwblhau'r gwaith bydd y cyngor sir yn gwerthu adeilad i'w berchennog gwreiddiol - sef Cwmni'r Rheilffordd.

RHOI'R GORAU I'R CLWB

Oherwydd diffyg cefnogaeth, penderfynwyd rhoi'r gorau i'r syniad o gael Clwb Cefnogwyr Eco'r Wyddfa. Roedd angen 200 i gynnal y clwb a'i wneud yn rhywbeth gwerth chweil i'r aelodau ac i'r papur.

Rydym yn diolch i'r aelodau presennol a gofynnwn i'r rhai a dalodd drwy archeb banc i wneud y trefniadau angenrheidiol i ddiddymu'r taliadau.

Bydd y clwb yn parhau hyd ddiwedd y flwyddyn hon, ac fe dynnir y gwobrau olaf yn ystod mis Rhagfyr.

HEB GOLLI'R YSGOL AM BEDAIR BLYNEDD



Efeiliaid go arbennig yw Nia a Sian Gwyn Griffiths, Llwyn Piod, Llanberis. Ni cholodd yr un o'r ddwy ddiwrnod o ysgol (Dolbadarn) am bedair blynedd. Nawr, maent newydd ddechrau ar eu blwyddyn gyntaf yn ysgol Brynrefail, Llanrug.

Yn y llun maent yn arddangos y tystysgrifau a dderbyniasant gan Gyngor Sir Gwynedd i arwyddo'u presenoldeb llawn ym mhob blwyddyn.

HEN YSGOL YN MYND Â'I PHEN IDDI



Y drws cefn wedi torri ac yn llydan agored, ysbwriel ar y llawr, ffenestri wedi torri, llechi'n rhydd ar y to a'r mieri a'r eiddew yn drwch. Atynfa fendigedig - ond peryglus - i blant. Trowch i dudalen 7.

LLUN MANON OEDD Y GORAU



Dyma Manon Llwyd Evans o Lanrug a enillodd gystadleuaeth arlunio yn ddiweddar. Mae'r dyddiad ar y tlws gafodd Manon yn arwyddocaol. Trowch i 'Sibrydion o'r Ysgolion' am yr hanes.

CYHOEDDI PAPUR DYDD SUL CYMRAEG



Hydref 17, caiff pobl Gwynedd bapur dydd Sul newydd - yn Gymraeg. Dyma'r dyddiad pryd y gwel Sulyn olau dydd m y tro cyntaf. Dyma un o'r datblygiadau mwyaf cyffrous ym myd newyddiaduriaeth trwy gyfrwng y Gymraeg yn ddiweddar - ac un y bu cryn drin a thrafod arno. Trowch i dudalen 13 am ragor o fanylion.

Yn y llun mae pedwar o newyddiadurwyr Sulyn yn edmygu'r dudalen flaen. O'r chwith i'r dde: Geraint Lewis o Dremadog, Tudur Morgan o Langefni, Dylan Iorwerth o'r Waunfawr ac Eifion Glyn o'r Bala.

ECO'R WYDDFA

RHIF 74
HYDREF 1982

Argraffwyd gan Wasg Gwynedd
Cibyn, Caernarfon

Cyhoeddwyd gyda chymorth
Cymdeithas Gelfyddydau
Gogledd Cymru

SWYDDOGION A GOHEBWYR

GOLYGYDD NEWYDDION
CYFFREDINOL: Twrog Jones, 23
Glanffynnon, Llanrug (C'fon 4051)
GOLYGYDD ERTHYGLAU: Dafydd
Whiteside Tomas, Bron y Nant,
Pontrhyallt, Llanrug (C'fon 3515)
GOLYGYDD NEWYDDION: Tony
Elliot, Crud y Wawr, Bryneglwys,
Penisrwaun (Llanberis 872438)
TREFNYDD NEWYDDION
YSGOLION: Iwan Lloyd Williams,
Bryn Idris, Llanberis (870515)
DYDDIADUR Y MIS: Miss Jane
Morris, 'Rallt Isaf, 3 Pen y Bont,
Ffordd Capel Coch, Llanberis
(871561)
FFOTOGRAFFWYR: Ifan Parry,
Morwel, Ceunant, (Waunfawr 321)
Gwyndaf Jones, 60 Glanffynnon,
Llanrug (C'fon 4669). Gwyndaf
Hughes, 20 Glanffynnon, Llanrug
TREFNYDD HYSBYSEBION: John
Roberts, Bedw Gwynion, Llanrug
(C'fon 5605)
TREFNYDD GWERTHIANT: Arwyn
Roberts, Hafle, Ffordd yr Orsaf,
Llanrug (C'fon 5510)
TREFNYDD ARIANNOL: Goronwy
Hughes, Eithinog, 14 Afon Rhos,
Llanrug (C'fon 4839)
TREFNYDD GWERTHIANT POST:
Mrs M. Evans, Lloc, Llanrug (C'fon
3227)
GOHEBWYR PENTREFI: Dyma'r bobl
i gysylltu â nhw yn eich ardaloedd:
BETHEL: Geraint Elis, Sycharth
(Portdinorwic 726)
BETWS GARMON: Mrs Brenda
Jones, Bryn Tegid (Waunfawr 294)
BRYNREFAIL: D.G. Ellis, Gweledfa
(Llanberis 871223)
CEUNANT: Ifan Parry, Morwel,
(Waunfawr 321)
CWM-Y-GLO: Dafydd Price, Tŷ Capel
(Llanberis 870550)
DEINIOLLEN: Mrs Nancy Rowlands,
12 Pentre Helen (Llanberis 870267)
DINORWIG: O.R. Williams, 2 Bro
Elidir (Llanberis 870671)
LLANBERIS: Mrs Siân Thomas, Tŷ'r
Ysgol (Llanberis 870220)
NANT PERIS: T.J. Roberts, Llys Awel
LLANRUG: Mrs Eirlys Pierce,
Swyn-yr-Awel (C'fon 3776)
PENISARWAUN: Mrs Mary Davies, 9
Llys y Gwynt, (Llanberis 872329)
TAN-Y-COED: Miss Megan
Humphreys, 4 Tai Tan-y-coed
(Llanberis 870030)
WAUNFAWR: Mrs G. Jones, Rhandir
Mwyn (Waunfawr 626)
TREFNYDD PLYGU: Gwyndaf
Hughes, 20 Glanffynnon, Llanrug

Y RHIFYN NESAF

Daw'r rhifyn nesaf
o'r wasg
HYDREF 28
Deunydd i law'r
golygyddion perthnasol
NOS FAWRTH
HYDREF 21
os gwelwch yn dda

LLYTHYRAU

LLYTHYR AGORED

ar ran y Pwyllgor
Cenedlaethol dros gau'r
tafarnau ar y Sul

Ers 1961 bu'r Cymry yn pleidleisio bob saith mlynedd dros gau'r tafarnau ar y Sul ac fe ddaw'r cyfle eleni eto ym mis Tachwedd. Nid yw'r dyddiad eto wedi ei ddewis ond yr ydym fel Pwyllgor Cenedlaethol dros gau'r Tafarnau ar y Sul wedi paratoi ein manifesto ac wedi ysgogi nifer dda o Ddosbarthiadau i fynd ati i weithio'n ddygn ac yn gadarnhaol.

Credwn nad oes angen ychwanegu at gyfleusterau yfed ar y Sul a thristawn bod y Clybiau Yfed yn aml yn medru bod mor ffroenuchel. Galwn ar bobl i bleidleisio o ddifri ar y mater hwn er mwyn rhoi'r hawl inni bwyso ar yr awdurdodau i gael pawb i barchu dymuniad y cyhoedd. Paratowyd y daflen ddwyieithog i'w dosbarthu yn y cartrefi ac mae'n bosibl y cawn hefyd boster i'w osod yn ein capeli a'n heglwys.

Y mae'r mater pwysig hwn yn awr yn nwylo Cristnogion y broydd, a bydd pleidleisio ym Môn, Arfon, Dwyfor, Aberconwy, Colwyn, Glyndŵr, Wrecsam, Maldwyn, Meirionnydd, Ceredigion, Gogledd Penfro, Dinefwr, Caerfyrddin, Llanelli, Lliw a Chastell Nedd. Gwahoddwyd y Parchedig Ddr T.J. Davies yn gynullydd dros y De a gellir cysylltu ag ef yn 112 Heol Albany, Caerdydd, Ffôn: Caerdydd (0222) 493895 ac yn nhiriogaeth y Gogledd a'r Canolbarth ceir cymorth oddi wrth y Parchedig Henry Jones, 151 London Road, Caergybi, Môn, Ffôn: Caergybi (0407) 4966. Yr wyf finnau i daflu golwg dros Gymru gyfan fel angorfâr gweithgarwch a gellir cysylltu â mi yn 32 Garth Drive, Liverpool, L18 6HW, Ffôn: 051-724-1989.

Y mae gan bob enwad crefyddol ei gynrychiolwyr ar y Pwyllgor Cenedlaethol o dan lywyddiaeth y Parchedig Eifion Powell, Wrecsam, a byddem yn ddiolchgar am unrhyw gyfraniad ariannol i'r Trysorydd: Y Parchedig Emlyn G. Jenkins, Haulfryn, Gwbert Road, Aberteifi, Dyfed SA43 1AE. Unwyd hefyd fudiadau eraill fel Cyngor Unedig ar Alcohol, Undeb Dirwest Gogledd Cymru a Chymdeithas Dydd yr Arglwydd yn yr ymgyrch hon.

Ni ellir prisio'r gwerth a ddeilliodd i Gymru o Gadwraeth y Sul ac y mae'n amlwg fod yn rhaid ailddarganfod ei werth. Dyma drysor. Diogelwn ei werth mewn dyddiau o densiwn. Awn ati i amddiffyn ac ennill y dydd yn yr ardaloedd a nodwyd yn y llythyr hwn.

Y Parch D. Ben Rees,
32 Garth Drive,
Lerpwl L18 6HW

Pont Penllyn - y Dechrau a'r
Diwedd

Syr,

Syfrdanwyd yr ardal fis Ebrill diwethaf gan stori am ddymchwel y bont a ymddangosodd yn yr Eco ond mae'n ymddangos fod y gwamalrwydd yn nes i'r gwir nag a feddylwyd ar y pryd. Yn ddiweddar daeth hysbyseb yn dweud fod cais i fynd gerbron yr Ynadon i gau'r hen bont i drafnidiaeth. Mae'r cais ynghlwm â dau gais arall i gau dau ran o'r hen lôn fawr sydd eisoes ar gau — y rhimyn o'r Snowdon at y bont newydd a'r lôn o Benllyn i ben y twnnel.

Mae'n anodd deall y rhesymeg tu ôl i hyn gan fod y bont yn cael ei defnyddio gan drafnidiaeth ysgafn. Mae'r loriau trymion a'r ceir ar frys yn defnyddio'r lôn a'r bont newydd. Yr unig reswm dros ei gadael fel llwybr troed yn unig yw y gellir ei diddymu yn gyfan gwbl yn y dyfodol i arbed y gost o'i chynnal.

Buasai colli Pont Penllyn a'r olygfa ddihafal oddi arni yn golled amhrisiadwy a dyma enghraifft lle y buasai'r golled i'r amgylchedd yn llawer trymach na'r gost ariannol o gynnal y bont.

Y ffordd sicraf i ofalu am ei dyfodol ac i wneud yn siŵr y bydd i blant ein plant gael mwynhau gogoniant Eryri oddi arni yw ei chadw ar agor. Ni bydd esgus wedyn i beidio ei chynnal a'i chadw.

Helen Roberts,
Llwyn Coed Bach,
Penllyn,
Cwm-y-glo.

Annwyl Olygydd,

Roedd stori Ffŵl Ebrill yr Eco am Bont Pen Llyn yn o agos i'w lle yn y diwedd. Rwan, ymhen chwe mis, gwelwn fod cais am ei chau i drafnidiaeth yn cael ei wneud i'r Llys Ynadon yng Nghaernarfon Hydref 28.

Ddarllenwyr, os ydych am wrthwynebu anfonwch i'ch cynghorwyr yn syth. Erbyn y daw y rhifyn nesaf o'r Eco o'r wasg bydd yn rhy hwyr ...

"A'r bont yn wag sy'n croesi'r dŵr
Difwstwr ym Mhen Llyn."

Yr eiddoch yn gywir,
V. Jones

CALENDR ADFENT 1982

Y Golygydd,
Yn dilyn llwyddiant eithriadol 'Calendr Adfent 1981', y mae Cyngor Ysgolion Sul Cymru, mewn cyd-weithrediad â'r Gymdeithas Undebol er Lledaenu'r Efengyl, yn dwyn allan 'Calendr y Nadolig 1982' yn Gymraeg.

Hanes plentyn Tseineidd o'r enw Li Quok Wai sydd ar y Calendr eleni. Mae'n byw mewn fflat fry uwchben

dinas Hong Kong. Ar glawr y Calendr fe welwch aelodau'r teulu Li wrthi'n gwerthu ffrwythau oddi ar eu stondin yn y farchnad. Ymunwch â nhw wrth iddynt baratoi at y Nadolig. Fe ddysgwch lawer am ofnau ac am obeithion pobl Hong Kong. (Ystyr Hong Kong yw 'Porthladd Persawrus'). Rhoddir gwobr i'r Ysgol Sul a'r Ysgol Ddyddiol a fydd wedi gwerthu fwyaf ar y Calendr (Gweler 'Antur' am fanylion pellach).

Pris y Calendr fydd 75c yr un (yn cynnwys cludiant) neu 65c yr un os archebir 10 copi neu ragor. Bydd y siec yn daladwy i 'Cyfrif y Calendr'. I gael y Calendr Cymraeg anfonwch ataf - Y Parchedig J. Haines Davies, Goleugell, 24 Ffordd Cadwgan, COLWYN, LL29 9PY. Diolchaf am bob cydweithrediad, gan obeithio, fel y llynedd, y gwerthir pob copi o'r fersiwn Gymraeg. Bydd yr elw yn mynd tuag at 'Antur'.

Yn gywir iawn,
J. Haines Davies (Y Parch.)

BRWYDR CRISTNOGAETH

Syr,

Roedd yr hen gapel bron yn wag, un yma ac acw, a rhesi o seddau gwag rhyngom. Yn y pulpud un o bregethwyr mwyaf dawnus Cymru, a'i sêl rhwyfodd yn chesu'r gwagle.

Problem yr oesau oedd ei bregeth, sef brwydr Cristnogaeth i achub dyn. Clywsom fel y bu'r Cristnogion cynnar yn brwydro am ysbryd dyn, a'i hymdrech fawr i'w ryddhau o grafangau lldewiaeth.

Clywsom am y frwydr am feddwl dyn a fu rhyngddynt a'r Groegiaid clyfar, myfyrgar a fynnai ddehongli a dadlau yn lle derbyn yr lesu drwy ffydd.

Yna, clywsom am y frwydr gorfforol, ac am greulondeb Nero yn rhoi'r Cristion i farwolaeth am nad oeddynt yn fodlon addoli unrhyw dduw, ond mynnu plygu i'r unig wir Dduw, — ie eu rhoi i farwolaeth, — ac o'm blaen yr holl seddau gwag. Cywilyddais, a digalonais ond meddai'r pregethwr fel pe bai yn darllen fy meddwl, nid diffyg Cristnogaeth sydd yng Nghymru heddiw, ond gormod o dduwiau sydd gennym.

Tybed? Ai dyna paham fod y trigolion wedi cadw draw? Ai addoli duwiau bach dibwys oeddynt?

Duw pleser efallai, duw hunanoldeb, duw rhyddid — pawb i blesio ei hun, onid hwn mae llawer o rieni yn ei drosglwyddo i'w plant heddiw, a gwelir yn eglur yr effaith a'r llanastr, a'r plant druain mewn penbleth, a'r rhieni yn beio pawb ond hwy eu hunain.

Ydyw, mae'r rhain a duwiau eraill yn cael eu lle yn ein gwlad, a phlygais innau i rai ohonynt nes darganfod y gwynfyd a'r boddhad sydd i'w gael wrth ddilyn yr unig wir Dduw.

Trist meddwl bod y duwiau yma wedi ennill tir ym mhentrefi yr 'Eco', a bod dau gapel wedi gorfod cau. Beth fydd tynged y pentrefi eraill tybed? Gobeithio fod rhai yn fodlon cefnogi'r achos cyn iddi fynd yn rhy hwyr.

Rwy'n siŵr fod llawer sydd wedi hen arfer cerdded tua'r llan ond bellach wedi cefnu yn dyheu am gael dychwelyd. Beth am roi cynnig arni, er mor anodd ailafael. Gwnewch er mwyn eich plant a phlant eich plant, a phwy a wŷr efallai y byddant hwy yn gwerthfawrogi'r addoldai.

Yr eiddoch,
Enid Grisdale
Eridon
Ffordd Bethel,
Caernarfon

Steddfota

Annwyl Gyfaill,

Fis Ionawr 1983 bydd cylchgrawn newydd sbon yn cael ei gyhoeddi. Cylchgrawn deufisol fydd STEDDFOTA yn ymdrin â holl agweddau'r byd eisteddfodol yng Nghymru, yn ogystal â'r Gwyliau Gwerin, Gwyliau Cerdd a Gwyliau Celtaidd. Bydd ynddo rywbeth at ddant pawb - erthyglau, portreadau, pytia hanesyddol, adolygiadau, adroddiadau, lluniau, colofn lythyrau, beirniadaeth adeiladol o'r 'sefydliad' Eisteddfodol a chroesair a phos ym mhob rhifyn gyda gwobrau da iawn. Bydd yn gylchgrawn 8 tudalen a'i bris fydd 20c.

Eisoes gwahoddwyd llawer o 'enwogion' y llwyfan i gyfrannu erthyglau iddo, ac wrth gwrs byddwn yn cyflwyno adroddiadau am y Gwyliau mawrion - y Genedlaethol, yr Ŵyl Gerdd Dant etc. Hoffem hefyd gynnwys adroddiadau a lluniau o'r eisteddfodau bychain a gynhelir ledled Cymru. Edrychwn yn arbennig am luniau ac adroddiadau o Eisteddfodau, Gwyliau Cerdd, Gwyliau Drama (efallai fod eich papur bro yn cynnal Gŵyl Ddrama yn barod), a Chystadleuthau Noson Lawen ynghyd â Chyngherddau ac Ymryson y Beirdd pan fo'r rheini'n rhan o weithgareddau rhyw Ŵyl. Buasem hefyd yn falch iawn o dderbyn portreadau o gorau, partion ac unawdwyryngus ag unrhyw hen grair eisteddfodol e.e. hen Restr Testunau.

Edrychaf ymlaen yn eiddgar iawn at glywed oddi wrthyh,

Hywel Uwchaleid (Golygydd)
19 Y Sgwâr,
Blaenau Ffestiniog
Ffôn: Moelwyn 491

RHODDION

Diolch yn fawr iawn i'r cyfeillion canlynol am eu rhoddion hael.

£5 - Mr a Mrs M. Pritchard, Ffordd Padarn, Llanberis.

£3 - Di-enw, Llanberis; Mr a Mrs V. Evans, 3 Dinorwig Terrace, Deiniolen.

£2 - Mrs E. Close, 16 Maes Gwylfa, Deiniolen; Mr a Mrs Sutherland, Pen y Bont, Deiniolen; Mrs S. Williams, 25 Rhydfadog, Deiniolen; Mrs M. Jones, 42 Pentre Helen, Deiniolen. Bryn Jones, 60 Dôl Elidir, Llanberis.

£1 - Di-enw, Deiniolen; Mr a Mrs Brymer Parry, Deiniolen; Mr a Mrs M.D. Lloyd, 31 Maes Padarn, Llanberis; Mr a Mrs E. W. Williams, 6 Ffordd Deiniol, Deiniolen; Mrs M. Thomas, 1 Tai'r Faenol, Deiniolen; Mr a Mrs I. Morris, 8 Tai Gweledfa, Deiniolen; Teulu Bron Myfyr, Dinorwig; Miss E. Thomas, Mrs Jane a Mr Hugh S. Jones, Buarth Newydd, Dinorwig; Mr a Mrs R. Jones, Heather Bank, Penisarwaun.

AR WERTH

Record Elvis Presley, 'Peace in the valley', 1957. £10. Twb neu sinc golchi bron yn gant oed. £10. Ffôn: Caernarfon 3917.

DEINIOLEN

PRIODAS AUR - Bu Mr a Mrs H. Vaughan Evans, 3 Dinorwig Terrace, Clwt-y-bont yn dathlu eu priodas aur Awst 24 1982. Priodwyd hwy yng nghapel Disgwylfa gan y diweddar barchedig Enoch Ellis Jones ac R.O. Williams, Cefn-y-waen Awst 24 1932. Dymuna Mr a Mrs Evans ddiolch o galon i bawb o'r teulu, ffrindiau a chymdogion am y lliaws cardiau, anrhegion a'r blodau. Diolch yn fawr i bawb.

DIOLCH - Dymuna Mrs Ellen Close, 16 Maes Gwylfa ddiolch o galon i'w theulu, cymdogion a'i ffrindiau am y cardiau, anrhegion a dymuniadau da a dderbyniodd tra fu'n derbyn triniaeth lawfeddygol. Diolch i'r staffi gyd yn Ward L.S. Ysbyty Môn ac Arfon.

PLAID CYMRU - Cynhaliwyd pwyllgor o'r gangen yn stafell y seindorf Medi 3 a 20, pryd y trafodwyd cynigion y Gynhadledd Genedlaethol sydd i'w chynnal yn Llandudno rhwng Hydref 28-31, '82.

Mae'r gwaith o gasglu aelodaeth am y tymor newydd bron wedi ei gwblhau.

Penderfynwyd cynnal y pwyllgor blynyddol yn stafell y seindorf nos Fawrth, Hydref 12 am 7.30 ac estynnir croeso i bob aelod.

LLONGYFARCHIADAU i Nicola Parry a'i thim chwaraeon o Ysgol Pendalar Caernarfon am ddod yn gyntaf yn chwaraeon Gogledd Cymru i bobl dan anfantais meddyliol a gynhaliwyd yn Ysgol Treborth Bangor Medi 18.

BATERI FFLAT - Go brin fod pentref yng Nghymru â rhan ohono yn cael ei alw'n 'Bateri' ond adwaenir y rhan ddwyreiniol o Ddeiniolen yn 'Bateri'. Pwy all ddehongli ei darddiad a'i ystyr? Roedd hwn yn bod cyn bod sôn am Fateri car, fflaslamp, na ier bateri. Roedd yma dair rhes o dai bychain a'u talcen i'r ffordd ac un arall yn cydreddeg â wal derfyn Tai Caradog lle ceid login grôt, a nifer sylweddol o bobl yn byw ynddynt a chymeriadau doniol a lliwgar yn eu mysg.

Maent wedi gwasgaru i bedwar ban byd ers blynyddoedd a llawer yn huno'n dawel yn y ddwy fynwent. A dymchwelwyd yr hen dai ac eithrio'r rhai a welir heddiw, ac yn eu lle fe adeiladwyd dwy garej gan y diweddar J.W. Hughes neu Joni Huws fel y'i hadwaenid - un o deulu lluosog Caxton House, i gadw'r bysus oedd ganddo yn rhedeg o Ddinorwig i Fangor.

Cofir amdano'r cychwyn gyda Ffordyn bach ac ar ôl hwnnw un bws, ac yn ddiweddarach dri bws, ac amrywiol a niferus fu'r gyrrwyr a'r casglwyr ticedi a gyflogai. Ymddeolodd ymhen blynyddoedd a gwerthwyd y busnes i'r Cwmni Porffor, Bethesda a gwerthfawrogi eu gwasanaeth rheolaidd i'r ardal yn fawr iawn gan y trigolion (di-gar). Er hynny fe'u gelwir o hyd yn Fysus Joni Huws.

Y dyddiau diweddar 'ma, mae'r ddwy Garej yn cael eu tynnu i lawr. Nid oes eu hangen eto ac mae edrych arnynt megis estyn dau lyfr cofnodion oddi ar silff lyfau.

Yr wyf wedi ceisio darlunio'r safle cyn ei adeiladu. Beth arall a gofir? Yma y byddai ocsiwn 'oilcloth' neu linoleum, a llestri o bob math a phiseri a chelfi tŷ yn cael ei chynnal ar nos Wener Cyfri Mawr y Chwarel o dan do cynfas: gwerthwr a lampau nwy yn bytheirio i bob cyfeiriad yn y gwynt.

Fe erys hyd heddiw lawer llestr defnyddiol dan y gwely a brynwyd yn rhad yn ocsiwn Batri. Beth arall oedd yno? Wel, ia, siop bwtsiar. Dôl Dawst Jôs a'i gar a'r ferlan ddu â

chig o siop bwtsiar y Borth (Porthaethwy) bob pnawn Sadwrn, glaw neu hinda, ac yn y Bateri yr arhosai am tua dwy awr. Wedyn paned yn un o'r tai ac ymlaen wedyn i ben draw Dinorwig. A miwsig i glust fyddai clywed yr hen ferlan a'r car tua un ar ddeg y nos yn dychwelyd trwy'r pentref yn ôl am y Borth a thân yn fflachio o'i phedolau a'r ddwy lamp gannwyll yn olau yn y gaeaf. Melys atgof yn wir i chwi a rhamantus.

Ond ar arferion Cymru gynt

Newid ddaeth o rôd i rôd

Ond hir atgof am rhen Bateri

Gan hen atgofion prin Gwaun Gynfi.

T.J.H.

LLONGYFARCHIADAU - Dymuna Uncle Ellis, Auntie Margaret a Mari ddymuniadau gorau a phob llwyddiant i ti Aled, 2 Tai Gweledfa ar ddechrau dy yrfa ym Mhrifysgol Lerpwl. Dymuniadau gorau hefyd oddi wrth leuan a Nia.

DIOLCHIADAU - Dymuna Mr a Mrs leuan Morris, 8 Tai Gweledfa ddiolch o galon i'w teulu, ffrindiau a'u cymdogion am y llu cardiau, anrhegion ac arian a dderbyniasant ar enedigaeth eu merch fach, Jennie Lyn. Hefyd diolch o galon i staff Ysbyty Dewi Sant, Bangor.

Dymuna Mr a Mrs Melvyn Douglas Lloyd, 31 Maes Padarn, Llanberis ddiolch i'r teulu, cymdogion a llu mawr o'u ffrindiau, am yr anrhegion, arian, cardiau a'r dymuniadau da a dderbyniasant ar achlysur eu priodas Gorffennaf 10. Diolch yn fawr i bawb.

Dymuna Mrs Serah Roberts, 27 Hafod Olau ddiolch i bawb a fu mor garedig wrthi yn ymweld â hi ac am yr anrhegion, a chardiau tra fu yn ysbyty Môn ac Arfon, Bangor. Diolch yn arbennig i staff 'Lower Surgical' am eu gofal caredig. Diolch iddynt oll.

Dymuna Mrs Sas Williams, 25 Rhydfadog a Gracie ddiolch o galon am bob cydymdeimlad a ddangoswyd iddynt yn ystod eu galar o golli priod a thad caredig yn ddiweddar. Diolch i'r teulu oll, perthnasau, ffrindiau a'r holl ardal yn gyffredinol trwy roddion, cardiau a llythyron na ellir eu hateb yn uniongyrchol. Hefyd i'r meddyg teuluol a nyrs Marabel a phawb a fu o gymorth i'w phriod yn ystod ei waeledd.

Diolch yn fawr i bawb.

MERCHED Y WAWR - Cafwyd noson ddifyr iawn Medi 6 mewn ysgubor lawen yn Lleuar Bach Pontlyfni - cartref Llywydd Pwyllgor yr Anabl Merched y Wawr, Arfon. Cymerwyd rhan gan Dai Jones, Richard Rees, Hogia'r Wyddfa a Rhian Owen, Llanberis. Arweiniwyd y noson gan Madam Sera a'r gyfeilyddes oedd ei ffrind o'r Bontnewydd. Roedd yr ysgubor yn orlawn a gwnaed elw sylweddol at yr Anabl. Mae'r pwyllgor yn gwerthfawrogi gwaith gwirfoddol yr artistiaid. Diolch yn fawr iddynt i gyd.

SEFYDLIAD Y MERCHED -



'Guides' a 'Brownies' Deiniolen ar eu ffordd i Fae Colwyn.

Croesawyd yr aelodau yn ôl ar ôl y gwyliau gan y Llywydd, Mrs Eirlys Williams. Rhoddwyd cyfle gwych i'r aelodau drafod pynciau yn ymwneud â'r Sefydliad. Trefnwyd i gael Cinio Nadolig. Daw'r manylion erbyn y cyfarfod nesaf pan fydd Miss Mowler, Clwt-y-bont yn sôn gyda chymorth ffilm, am ei theithiau i wledydd tramor.

Rhoddwyd y te gan Mrs Eirlys Ll. Jones, Mrs Eirlys Williams a Miss Kathleen Jones. Enillydd y raffl oedd Mrs H.J. Thomas, Marian Terrace.

Bydd y cyfarfod nesaf Hydref 4 yn y Ganolfan.

CLWB ELIDIR - Cynhaliwyd cyfarfod o'r uchod pnawn ddydd Mawrth 14eg yn y Clinic. Llywyddwyd y cyfarfod gan Mrs C. Marren. Cydymdeimlwyd â rhai o'r aelodau a fu mewn profedigaeth yn ddiweddar. Balch oeddyd o weld un o'r pwyllgor sef Mrs M. Thomas, Berthen Gron, Clwt-y-bont wedi gwella ar ôl cael llawdriniaeth. Croesawyd Mrs Mary Jones, 4 Bwthyn yn aelod newydd. Enillwyd y raffl rhoddedig gan Mrs Mary Morris, 91 Pentre Helen gan Mrs Elsie Davies, 1 Tai Gwryfai. Cafwyd annerchiad byr hefyd gan Mrs Ellen Williams, 2 Bwthyn. Bydd y cyfarfod nesaf Medi 28.

TAITH I FAE COLWYN (Llun isod) - Dyma'r rhai o'r Guides a'r Brownies a aeth i Fae Colwyn am y diwrnod. I ddechrau'r dydd ymwelwyd â'r Sw ac i ddiwedd ymwelwyd â Pharc Eirias lle bwytaodd pawb eu picnic a mwynhau eu hunain. Rwy'n siŵr fy mod i, fel un rhiant yn siarad dros y rhieni eraill, yn diolch i'r chwiorydd hyn sydd yn rhoi eu hamser i edrych ar ôl y plant yn y Guides a'r Brownies.

LLYTHYR O BALASBUCKINGHAM

Derbyniodd 'Brownies' Deiniolen llythyr yn ddiweddar oddi wrth y Tywysog Siarl a'r Dywysoges Diana yn diolch iddynt am eu cyfarchion a'u dymuniadau da ar achlysur genedigaeth y babi brenhinol.

Y GANOLFAN - Carem fel Pwyllgor y Ganolfan ddiolch i'r canlynol am eu rhoddion at y Ganolfan: Mr a Mrs Alwyn Williams, Hafle, Tai'r Vaenol am roddi piano; Mrs M. Morris, Pentre Helen am lestri; Mr a Mrs Edgar Jones, Y Becws, am Rewgell. Hefyd cafwyd tua £300 mewn arian gan yr ardalwyr. Carem ddiolch ichi i gyd, ac os oes rhywun efo mwy o roddion byddem yn dra diolchgar ohonynt. Gwyddoch i gyd fel ardalwyr fod y Ganolfan wedi ei hagar gan Mr Richard Jones, Abergele, a bod gweithgareddau'n mynd ymlaen yn y Ganolfan bob wythnos. Gobeithio eich bod yn cefnogi'r pwyllgor yn ei fenter, a charem weld pob mudiad a llawer o weithgareddau eraill yn y pentref yn defnyddio'r Ganolfan.

ANGEN PRIF DDOSBARTHWR - Mae angen prif-ddosbarthwr ar gyfer yr Eco yn Deiniolen gan fod Mr Caradog Thomas, 2 Bron Helen, Clwt y Bont wedi rhoi'r gorau i'w swydd. Diolch yn fawr iddo ar ran y papur a'r fro am ei wasanaeth ffyddlon dros gyfnod hir. Os oes rhywun â diddordeb yn y swydd cysyllter â Mr Arwyn Roberts, Hafle, Ffordd yr Orsaf, Llanrug (C'fon 5510) neu Owain Myfyr Parry, Trigfa, Clwt y Bont (ffôn 872278).

LLANBERIS

DIOLCH – Dymuna Louie Pritchard, Modurdy Ganol ddiolch o galon i bawb am y caredigrwydd a gafodd ymhob ffordd ar ôl yr anffawd.

Dymuna Robin ac Anna Ellis Jones ddiolch i bawb am y caredigrwydd a ddangoswyd tuag atynt ar achlysur eu priodas yn ddiweddar.

PRIODASAU



Jones - Parry – Yng Nghapel Coch Awst 28 gyda'r gweinidog, y Parch Marcus Robinson yn gwasanaethu, priodwyd Valerie, merch Mr a Mrs Cledwyn Parry, Glan y Don â Colin, mab Mr a Mrs William Jones, Pant-y-Pistyll, Nebo. Darparwyd yr arlwy yng Ngwesty Bron Eryri lle y daeth dros gant o gyfeillion ynghyd i ddymuno'n dda i'r ddeuddyn. Byddant yn cartrefu yn Cae Glan yr Afon, Nebo.

Owen - Williams – Yn Eglwys Sant Padarn Medi 11 priodwyd Linda, merch Mr a Mrs Gordon Owen, 46 Maes Padarn â Nigel Wyn, mab Mr a Mrs Dennis Williams, Caernarfon. Gwasanaethwyd gan y Parch Ganon Alun Jones. Daeth dros 100 o gyfeillion i ddymuno'n dda i'r pâr ifanc yng Ngwesty'r Victoria. Byddant yn byw yn y pentref – yn Stryd Turner.

Ellis Jones - Anthony Jones – Yn Eglwys St. Mary, Cydweli gyda'r Canon Walkers yn gwasanaethu priodwyd Robin, mab Mr a Mrs Ieuan Ellis Jones, Erw'r Coed ag Anna Christine, merch Mr a Mrs Neville Anthony Jones, Pant y Grug, Cydweli. Darparwyd y wledd briodasol yng Ngwesty Ivy Bush Royal, Caernarfon a threuliodd y mis mēl ar Ynys Malta. Dymunir pob llwyddiant a hapusrwydd i'r ddau ifanc.

Lloyd - Williams – Yng Nghaernarfon priodwyd Linda Ann, merch Mr a Mrs Robert Lloyd, Dôl Elidir â Gwyn Williams o Drefor. Gwnânt eu cartref yn Llanberis – yn 36 Dôl Elidir.

Clarke - Owen – Priododd Michael, mab Mr a Mrs Peter Clarke, Teras York â Gwawr, merch Mr a Mrs Evan Owen, Maes Padarn. Daeth llw o gyfeillion ynghyd i Westy'r Victoria i ddymuno'n dda i'r ddau – a mwynhawyd gwledd briodasol ragorol yno.

CLWB YR HENOED – Nos Fawrth, Medi 8 yn y Ganolfan cynhaliwyd Pwyllgor Blyneddol Clwb yr Henoed gyda'r Canon Alun Jones yn llywyddu. Cyflwynwyd adroddiad y flwyddyn gan yr ysgrifenyddes, Miss Annie Jones, Teras Minafon, a chyflwynwyd y Fantolen flynyddol gan y trysorydd, Gwyneth Clark. Diolchwyd i'r ddwy am adroddiad mor lewyrchus – y cyfan yn dangos y gweithgarwch a fu'n mynd ymlaen ymysg y pwyllgor o fis i fis. Cyfeiriodd y cadeirydd at yr aelodau o'r pwyllgor a'r clwb a gyfarfu â phrofedigaethau yn ystod y flwyddyn, ac estynnodd y cydymdeimlad llwyr â hwy. Diolchodd hefyd i'r cyfeillion

hynny tu allan i'r pwyllgor sydd yn cynorthwyo gyda'r Prydau Parod (Meals on Wheels). Mae'r pensiynwyr hynny sydd yn derbyn y bwyd yma ddwywaith yr wythnos yn gwerthfawrogi'r cyfan yn fawr iawn.

Gwir ddiolchgar yw'r pwyllgor i bwyllgor y Ganolfan am ddefnyddio'r ystafelloedd i bwyllgorau a'r 'Te Bach' ddwywaith y mis. Penderfynwyd anfon £25 i bwyllgor y Ganolfan i ddangos eu gwerthfawrogiad. Diolchwyd i Mr Eurwyn Jones am arolygu'r cyfrifon eto eleni. Bydd y pwyllgor yn dechrau paratoi ar gyfer yr arwerthiant a gynhelir ym mis Tachwedd.

CASGLIAD SANT IOAN – Casglwyd £250 yn lleol i adran St John Ambiwylans, ac mae'r swyddogion yn dra diolchgar i'r ardalwyr, y plant a'u teuluoedd am eu cefnogaeth.

DAL I REDEG – Dal i redeg, ac yn llwyddiannus iawn, mae rhai o blant yr ardal mewn amryw o rasus rhedeg sydd yn cael eu trefnu yn y cylch. Bu Cai a'i frawd Marc Lloyd Williams yn rhedeg ym Metws-y-coed a Chaernarfon. Yn y ras chwe milltir o amgylch y Foryd, daeth Melanie Sellars yn gyfartal gyntaf dan 16 oed, a Paul Prydderch yn gyntaf dan 12 oed. Da iawn blant – daliwch ati.

I'R COLEG – Dymunir bob llwyddiant i'r plant hynny sydd wedi dechrau ar eu gyrfa yn y colegau. I Aberystwyth yr aeth Eleri, merch Mr a Mrs Dewi Ellis, Rhes y Cae; i'r Normal, Bangor yr aeth Delyth, merch Mr a Mrs Bert Parry, Stryd Newton, ac mae amryw wedi dechrau yn y Coleg Technegol ym Mangor.

O'R YSBYTY – Dychwelodd Alun Roberts, Rhes y Faenol gartref o'r ysbty. Hefyd Derek Jones, 20 Stryd yr Wyddfa a Hugh Hughes, Bwthyn, y Gadlas. Croeso cynnes i chwi yn ôl i'ch cartrefi.

NYRSIO – Y mis yma dechreuodd Karen, merch hynaf Eryl a Ken Williams, Tan y Bryn, Stryd Newton ar ei gyrfa nyrsio yn Ysbyty Glan Clwyd, Bodolwyddan. Dymunir pob llwyddiant i chwi Karen yn y gwaith anrhydeddus yma.

UNDEB Y MAMAU – Medi 7 cynhaliwyd gwasanaeth Undeb y Mamau dan arweiniad y Canon Alun Jones. Mwynhawyd araith ddifyr iawn gan Mrs Griffiths, organyddes Eglwys y Plwyf, Biwmares. Diolchwyd iddi gan Mrs Ella Howdle. Darparwyd y te gan Mrs Dennese Hughes, Mrs Eric Owen, Mrs Glyn Williams a Mrs Cheesman. Cydymdeimlwyd â Mrs Glyn Williams a Mrs Cheesman yn eu profedigaeth.

MARWOLAETHAU

Jane Humphreys – Awst 24 bu farw Miss Jane Humphreys, yn ei chartref, 63 Maes Padarn. Roedd yn un o'r trigolion hynaf yn yr ardal – yn 85 oed, ac wedi cael ei chaethiwo i'w chartref ers blyneddodd bellach. Wedi colli ei phriod, y diweddar John Humphreys, ni chafodd fawr o iechyd, ond cafodd ofal tyner a gofalus ei phlant hyd y diwedd. Roedd wedi magu chwech o blant, a'r cyfan wedi dod â llawer o fwynhad iddi. Pan y gallodd roedd yn aelod ffyddlon ym Mhreswylfa. Cynhaliwyd y gwasanaeth angladdol yn Eglwys Sant Padarn ar ôl gwasanaeth preifat yn y tŷ gyda'r Canon Alun Jones yn gwasanaethu.

Claddwyd hi ym mynwent Nant Peris. Estynnir y cydymdeimlad llwyr â'r teulu i gyd yn eu colled fawr.

Mrs L.A. Cheesman – Medi 7 yng Nghartref Plas Ogwen, Bethesda bu farw Mrs Lizzie A. Cheesman yn 82

oed. Bu'n byw yn yr ardal am flynyddoedd cyn symud i fyw yn y Fachwen.

Cynhaliwyd y gwasanaeth angladdol yn Eglwys Sant Padarn gyda'r Canon Alun Jones yn gwasanaethu. Claddwyd ei gweddillion ym mynwent Nant Peris. Estynnir cydymdeimlad â'r teulu – Kenneth a'i briod, Vember, Bwthyn y Gadlas.

Annie Margaret Williams – Medi 15 yn dawel yn ei chartref bu farw Annie Margaret Williams, priod Glyn Penny Williams, 22 Maes Padarn yn 64 mlwydd oed. Daeth i'r ardal 39 mlynedd yn ôl o Drefor, ar achlysur ei phriodas. Roedd yn gymeriad hynod o dawel a gwylaidd, ac yn fawr ei pharch gan yr ardalwyr. Dioddefodd afiechyd blin am amser maith, ond roedd yn ffyddiog iawn y byddai'n "gwella pan ddaw'r gwanwyn" (yng ngeiriau T. Rowland Hughes). Byddai'n ddiolchgar am bob cymwynas ac yn llawn gofal am ei phlant a'i hwyrion.

Claddwyd hi ym mynwent Nant Peris, gyda'r gwasanaeth angladdol yn Eglwys Sant Padarn ddydd Sadwrn, Medi 18. Cydymdeimlir â Glyn, y merched a'r meibion a'r teulu i gyd yn eu colled.

YN YR YSBYTY – Mae'r cyfeillion a ganlyn yn aros o hyd yn yr ysbty. Dymunir adferiad a dychweliad buan iddynt i'w cartrefi: Mr Bob Owen, Coed Mawr, sydd yn Abergele; Mr Percy Jones, Plas Coch, sydd yn yr Eryri, Caernarfon; Mrs Parry-Davies, Pen y Graig, sydd yng Nghaernarfon, a Mrs Butler, Snowdon View, sydd wedi ei tharo'n wael yn sydyn iawn ac wedi derbyn triniaeth lawfeddygol yn Derby.

NAIN A TAID – Llongyfarchiadau i Mr a Mrs William Allsop ar fod yn nain a thaid am yr eildro pan anwyd bachgen bach, Christopher, i Selwyn a Rita, Stryd Ceunant.

PERERINDOD – Ddydd Sadwrn, Medi 18 aeth llw o Annibynwyr o gylch Llanberis, Deiniolen a Chwm-y-glo ar bererindod i Lŷn, yn dilyn llwybr y pererinion gynt, i Aberdaron. Trefnwyd y diwrnod gan y Parch Hugh John Hughes, a chafwyd hanes diddorol o'r holl eglwysi yr ymwelwyd â hwy.

BEDYDDIO – Yn ei gartref Dyffryn Twrog, Llandwrog Uchaf, bedyddiwyd Sion Philip, mab cyntaf i Buddug a Gwilym Thomas, gan y Parch Marcus Robinson, Capel Coch. Mae Sion Philip yn ŵyr i Mr a Mrs Hawen Roberts, ac yn or-ŵyr i Mrs Dilys Roberts, Dakota.

BABI NEWYDD – Rai wythnosau'n ôl daeth babi bach newydd i gartref Anna a Tony Williams, Stryd y Ffynnon – geneth fach – chwaer i Dylan a Gerallt, a mae iddi enw tlws iawn, Delwen Haf.

GWASANAETH Y TEULU – Trefnodd yr Annibynwyr wasanaeth arbennig i aelodau'r cylch – Penisarwaen, Cwm-y-glo, Deiniolen a Llanberis – yn Eglwys Taberncl, Deiniolen. Gwasanaeth i'r teulu ydoedd, pryd y cymerwyd rhan gan blant ac oedolion o'r eglwysi i gyd. Yn y nos cafwyd pregeth gan y Parch Trevor Lewis.

CAPEL JERUSALEM – Fe fydd Capel Jerusalem yn cyrraedd carreg filltir arbennig iawn ar y 10 a 11fed o Hydref pryd y dathlir cant a hanner o flynyddoedd fel mangre i addoli Duw. Cynhelir cyfarfodydd arbennig y dathlu ddydd Sul y 10fed a nos Lun y 11fed fel yr hysbysebwyd yn y rhifyn hwn o Eco'r Wyddfa.

DOSBARTHWR – Ar ôl pedair blynedd o wasanaeth ffyddlon i'r Eco fel prif ddosbarthwr yn Llanberis mae Ken Jones, 19 Maes Padarn wedi rhoi'r gorau i'w swydd. Diolch yn fawr iddo ar ran y papur a'r fro am ei

lafur diflino. Os oes gan rywun ddiddordeb yn y swydd cysyllter â Mr Arwyn Roberts, Hafle, Ffordd yr Orsaf, Llanrug (Ffôn: C'fon 5510).

YN YR YSBYTY – Ein dymuniadau gorau i Mrs Batten, Maes Padarn, sydd yn yr ysbty.

RAS SGWÂR – Ddydd Sadwrn, 16 Hydref bydd dwy o ferched ifanc y pentref, sef Bethan Hughes, Beech Bank a Rhiannon Pritchard, Madryn, Stryd Newton yn cymryd rhan yn y rhaglen gwis boblogaidd Ras Sgwâr ar HTV Cymru. Mae'r ddwy yn ddisgyblion yn y chweched dosbarth yn Ysgol Brynrefail.

LLONGYFARCHIADAU – i Beti Hughes, Tan y Clogwyn ar ei llwyddiant yn ei harholiadau yng Ngholeg y Brifysgol, Aberystwyth. Enillodd radd BA gydag anrhydedd mewn Cymraeg. Mae Beti ar fin dechrau cwrs dysgu athrawon yng Ngholeg Bangor. Pob llwyddiant yn y dyfodol, Beti.

C.N.D. DYFFRYN PERIS

Cynhelir cyfarfod cyntaf y gaeaf yn y Ganolfan, Llanberis am 8 o'r gloch nos Fercher, Hydref 6. Croeso cynnes i bawb.

BETH AM DDOD I GYSTADLU I EISTEDDFOD DYFFRYN OGWEN

Manylion gan Emllyn Jones, Bethesda 600846

neu beth am ddod i fwynhau'r wledd yn Ysgol Dyffryn Ogwen, Bethesda

Nos-Wener, Tachwedd 12 6.30pm
Sadwrn, Tachwedd 13 12.30 a 6pm

Lluniaeth ysgafn yn yr ysgol
bnawn Sadwrn.

CAPEL JERUSALEM LLANBERIS 1832-1982

Y DATHLU

Hydref 10 a 11

Bore Sul am 10.00
Yr Oedfa Agoriadol
Y Gweinidog
Y Parch Huw J. Hughes

Pnawn Sul am 2.00
Cyfraniad y Plant

Nos Sul am 8.00
Cymanfa Ganu

Cadeirydd:
Y Parch G. Williams
Arweinydd:
Irfon Ellis
Organydd:
Robert Lloyd
Unawdydd:
Rhian Owen

Nos Lun am 7.00
Cyfarfod Arbennig
'HANES YR ACHOS'
Y Parch Huw J. Hughes
Y Parch Gareth Watts

CROESO I BAWB

WAUNFAWR

LLONGYFARCHIADAU i Gwyneth Williams, Bryn Celyn ar gyrraedd ei phen-blwydd yn 21 oed, Medi 23.

SEFYDLIAD Y MERCHED - Cynhaliwyd cyfarfod mis Medi o'r Sefydliad yn Neuadd yr Eglwys nos lau, Medi 2, gyda Mrs Catherine Jones yn llywyddu. Croesawodd Mrs Jones yr aelodau yn ôl ar ôl y gwyliau haf. Roedd yn falch o weld Mrs Morley Williams yn bresennol eto ac yr oedd yn falch fod Mrs Pat Parry wedi gwella ar ôl ei hymwelid â'r ysbyty. Cydymdeimlodd â Mrs Betty Griffith yn ei phrofedigaeth, ac wedyn llongyfarchodd hi ar enedigaeth wyres fechan. Rhoddodd longyfarchiadau i blant y pentref sydd wedi bod yn llwyddiannus yn eu harholiadau.

Darllenwyd y llythyr misol a chofnodion y cyfarfod diwethaf a'u trafod. Cynhelir ysgol grefft ar waith canfas ddydd Mercher, Tachwedd 17 a 24 a Rhagfyr 1.

Cynhelir Cyngor yr Hydref o'r Sefydliad ym Methesda nos lau, Hydref 14. Y wraig wadd am y noson oedd Mrs Iona Roberts o Edern. Cafwyd sgwrs ddiddorol ganddi ar wneud collage ac fe ddangosodd sleidiau yn dangos ei rhan hi o'r collage 'Cadernid Gwynedd'.

Diolchwyd iddi gan Mrs Morgan Jones. Enillodd Mrs Gwen Jones y raffi a roddwyd gan Mrs Buddug Rowlands. Mrs Gwen Jones a roddodd y blodau ar fwrdd y llywydd ac fe'u rhoddwyd wedyn i Mrs Betty Griffith. Cynhelir y cyfarfod nesaf nos lau, Hydref 7 yn Neuadd yr Eglwys.

MERCHED Y WAWR - Nos lau, Hydref 28 - Noson Gymdeithasol yng nghwmni Teulu Hendre Cennin, Garndolbenmaen yn Neuadd yr Eglwys am 7.30 o'r gloch. Bydd y drysau ar agor am 7.15 o'r gloch. Mae'r cyfarfod yn agored i'r cyhoedd, yn ogystal ag i aelodau Merched y Wawr - croeso cynnes i bawb. Cyfraniad o'r elw tuat at ymgyrch Canolfan Waunfawr.

YR URDD - Mae'r Urdd wedi dechrau unwaith eto. Bydd y cyfarfodydd yn cael eu cynnal, fel arfer, bob nos Fercher, yn yr ysgol am 6 o'r gloch. Mae croeso i bob plentyn sydd yn 7 oed cyn Ionawr 1af, hyd at blant sydd ar eu blwyddyn gyntaf yn yr ysgol uwchradd i ymuno â'r gangen. Y tâl aelodaeth yw 75c.

Ar gyfer dydd Sadwrn, Hydref 2, mae Kevin wedi trefnu taith gerdded i'r aelodau. Bydd yn cychwyn o Fodhyfryd am 10 o'r gloch, ac fe gymer tua 2 awr i'w chwblhau. Cofiwch ddod.

DIOLCH - Dymuna Gareth, Jeni a'r plant, Glyn Ceris, ddiolch o galon i'w llu cymdogion, ffrindiau a phawb arall am bob arwydd o garedigrwydd

a ddangoswyd tuag at Gareth tra roedd yn yr ysbyty, ac ar ôl dod adref.

YR YSGOL - Yn yr ysgol bawn Gwener, Medi 10, rhoddwyd Tystysgrifau Cadw'r Ysgol Heb Golli i'r plant canlynol gan Gadeirydd y Rheolwyr, Dr R.S. Williams: Karen Roberts (ei 4ydd tystysgrif), Gwennan Jones (3ydd tystysgrif), Osian Gwynedd (3ydd tystysgrif), Siân Lloyd Jones (2il dystysgrif), Bethan Wyn, Haf Parry, Gareth Rhys Jones ac Elliwan Iwan sydd yn awr yn Ysgol Syr Hugh Owen.

Hefyd derbyniodd y plant canlynol fathodynau nofio fel a ganlyn: 10 metr - Colin Davies, Sian Rowlands, Tina Parry, Dylan Jones, Karen Roberts a Lynne Jones. 20 metr - Gwynant Pierce, Gwyndaf Williams, Mark Basterfield, Wayne Owen a John Barnes. 50 metr - Rachael Pierce. 100 metr - Felicity Duncan.

CLWB GWYRFAI - Mewn cyfarfod arbennig o'r Clwb yn ddiweddar anrhegwyd y Parch Trefor Jones a Mrs Jones gyda Chloc 'Carriage' ar achlysur eu Priodas Arian, gan Mrs Idris Jones ar ran yr aelodau.

Pnawn lau, Hydref 7, y Dr John Gwilym Jones, Groeslon fydd y Gŵr Gwadd. Croeso cynnes i aelodau hen a newydd.

LLONGYFARCHIADAU i Yvonne Rowlands, Bryn Golau, ar ei phen-blwydd yn 18 oed. A hefyd i Mr a Mrs Glyn Williams, Tref Eilian ar fod yn daid a nain unwaith eto. Ganwyd mab i Gill a Jeff.

YN YR YSBYTY - Dymunwn wellhad buan iawn i Mr Idris Humphreys, Arwel, sydd yn Ysbyty Minffordd ym Mangor.

ADREF O'R YSBYTY - Gobeithiwn fod y rhai a fu'n yr ysbyty yn ddiweddar yn parhau i wella, sef Mr W.T. Owen, Noddfa; Mr Robin Jones, Gardden; Mr Gareth Jones, Glyn Ceris; Mrs Mary Jones, Llwyn Afon, Andrew Davies, Hafan a Suzanne Allen, Pen y Bont.

CYDYMDEIMLWN â Mrs Joan Davies, Nant y Mynydd, ar golli ei thad.

Hefyd â Mrs Stanley Williams, 10 Bryn Golau ar golli chwaer yng Nghaernarfon.

Y GANOLFAN - Yn y pwyllgor cynigiwyd pleidlais o ddiolchgarwch i'r tîm o adeiladwyr ar eu gwaith ardderchog, ac am arbed £4,000 i'r pwyllgor drwy gyflawni'r gwaith am y nesaf peth i ddim. Cynigwyd y diolch gan Humphrey Roberts ac fe'i eilwyd gan Rose Ann Hughes.

Ymhlith y gweithgareddau a drefnwyd y mae Ffair Sborion yng Nghaernarfon ddiwedd Hydref; Colli Pwysau Noddedig yn Ionawr a

Dawns yn Ysgol Syr Huw Owen ym mis Tachwedd. Mae Clwb y Mamau yn trefnu noson arbennig i godi arian i'r ymgyrch ar Hydref 8 yn Neuadd yr Eglwys.

CLWB 'Y BONT' - Cyfarfod cyntaf yng Ngwesty Foelas, Llanrug am 8 o'r gloch, nos Fawrth, Hydref 26. Noson

yng nghwmni Mrs Mary Vaughan Jones. Croeso cynnes i aelodau hen a newydd.

CLWB CANT - mis Gorffennaf - 1. D.L. Davies, Nant y Mynydd; 2. Irene Huws Roberts; 3. Marilyn Roberts. Awst - 1. Meirion Jones, 2. Norman Williams, 3. Iolo Huws Roberts.

LLWYBRAU NATUR

gan Leslie Larsen

Dau Lyfr

Yr wythnos ddiwethaf gwelsom wenoliaid yn ymgynnull yn barod i ymfudo i Affrica ac erbyn hyn nid oes ond ychydig ar ôl yn y fro. Heddiw, y 21ain o Fedi gwelwyd yr eira cyntaf gyda chopau Y Garn, Y Gludair, Crib y Ddysgl a'r Wyddfa'n wyn.

Mae'r plant wedi dechrau chwarae colbs (conkers) a'r siopau yn arddangos nwyddau Nadolig. Felly nid oes ryfedd yn y byd i rywun ddechrau meddwl am y Nadolig.

Os ydych chi'n dechrau poeni am anrhegion Nadolig gallaf eich helpu drwy awgrymu dau lyfr diweddaraf E.V. Breeze Jones ac Islwyn Williams sef 'Adar yr Ucheldir' ac 'Adar yr Afonydd a'r Llynnoedd'. Argraffwyd y naill ym mis Tachwedd 1981 a'r llall eleni ym mis Gorffennaf. Mae safon y lluniau unwaith eto yn uchel iawn ac mae'r manylder a chywirdeb a welwyd yn eu cyfrol gyntaf ac sy'n nodweddiadol o waith Islwyn Williams eto'n amlwg.

Trowch i dudalen 21 yn 'Adar yr Afonydd a'r Llynnoedd' ac fe welwch lun gwyh o geiliog Hwyaeden Frongoch ar Lyn Padarn ac yn gefndir iddo lun bychan perffaith o Fwlch Llanberis yn ei holl ogoniant gydag eira ar y brynau a grŵp yr Wyddfa yn gywain ac effeithiol. Nid oes rhaid dweud pa mor hyfryd a chywir yw'r lluniau yn y ddwy gyfrol. Ni allaf enwi ychwaith fy hoff luniau i gyd, ond i mi, y mae'r Corhwyaden, tud 12, Bronwen y Dŵr tud 40 a'r Siglen Lwyd tud 42 yn 'Adar yr Afonydd a'r Llynnoedd' ac yn 'Adar yr Ucheldir' Cudyll Bach tud 9, Mwyalchen y Mynydd tud 31 a Crec yr Eithin yn arbennig o dda.

Gan fod Islwyn yn hoff o gywirdeb y mae'n bosibl adnabod y blodau yn ei luniau ac mae'r rhain yn amlwg: Gold y Gors, Helyg, Glas y Gors, Alaw'r Llyn, Eithin, Grug, Blodyn Llefrith, ac eraill.

Trafodir yr adar gan E.V. Breeze Jones dan y penawdau:

LLYFRAU PAIS

Cur Cariad

Y diweddaraf yng Nghyfes y Fodry

60c

Gwin Jean

Cyfarwyddiadau ar sut i wneud gwinoedd o bob math.

80c

Gwneud Teganau

Cyfarwyddiadau manwl ar wneud deuddeg o deganau meddal.

£1.20

I'w cael yn y siopau neu gan MEI, 40 Stryd y Wyddfa, Penygroes, Caernarfon, Gwynedd & Penygroes 302

CYMYSGWR CONCRIT AR FENTHYG

£10 yr wythnos
£2.50 y dydd

HEFYD CLUDO
LLWYTHI YSGAFN
CLIRIO SAFLEOEDD,
DANFON TYWOD,
GRO A DEFNYDDIAU
ADEILADU ERAILL

ERIC GOVER

11 STRYD YR
WYDDFA

LLANBERIS

Ffôn:
LLANBERIS 872285
NEU 871327

MODURDY MENAI



FFORDD CAERNARFON
Y FELINHELI

Ffôn: Y Felinheli 670882
Perchennog: J. Evans

Wil a Val
Guy

STORFA TREFLYN BETHEL

Y Felinheli 670237

Bwydydd Teganau
Diodydd Dafedd
Melysion

Ffiniau'r Gorffennol

YR ELIFFANTES FAWR

Yn yr Herald Cymraeg, Mehefin 7, 1943 y mae fy niweddar dad Glan Rhyddallt yn dweud hanes Milodfa Wombell (sioe) a ddaeth i ardaloedd Eryri yn y flwyddyn 1871 am yr ail neu drydydd tro. Anfonodd Mr Richard W. Griffith, Deiniolen at berchennog y filodfa i ofyn tybed a fuasai'n dwad i Ddeiniolen i ddangos yr anifeiliaid, gan sicrhau y byddai'n siŵr o gynulleidfa dda. Addawodd perchennog y sioe y buasai'n dwad ar bob cyfrif, gan y byddai'n hwylus iddo alw ar ei ffordd o Lanberis i Fangor.

Ond pan oedd y sioe yng Nghaernarfon y diwrnod cynt dyma ryw walch drwg direidus yn creu stori gelwyddog trwy ddweud nad oedd y sioe yn bwriadu dwad i Ddeiniolen. Aeth y stori gelwyddog fel tân gwyllt trwy Ebenezer (dyna enw Deiniolen) a phawb yn gofyn paham na fuasai'r sioe yn dwad yno yn ôl yr addewid.

Wel, roedd raid i berchennog y sioe wneud rywbeth i argyhoeddi'r ardal mai celwydd noeth oedd dweud nad oedd y sioe yn bwriadu dwad i Ebenezer. Beth wnaeth y perchennog ond anfon dyn i gerdded yr eliffantes fawr trwy'r ardal - i fyni lôn y Fachwen i Ddinorwig ac i lawr Gallt y Foel i'r pentref, a hysbysu pawb ar y ffordd fod y sioe yn dwad drannoeth. Doedd neb yn sôn am ddim ond Yr Eliffantes Fawr. Dyna oedd pwnc y dydd hwnnw wedyn.

Wrth gwrs, yr oedd hyn yn beth newydd a hynod i'r ardal, a daeth pawb allan drannoeth i gael gweld y sioe. Yr oedd y chwarelwyr ieuainc yno i gyd. Talodd Mr Samuel Jones am ddeddi i ddeg ar hugain o fechgyn y melinau llechi fynd yno.

Daeth plant ysgolion Deiniolen, Llandinorwig a Dinorwig i'r sioe'n gryno. Talodd Mr Owen Parry, Bron Elidir sef y stiward, holl gostau plant Dinorwig. Nid oedd modd cadw neb adra ar ôl i'r eliffantes fawr fynd i fyni'r Allt Wen, Cae Cochion, yr Allt Ddu a Gallt y Foel. Ni fu'r fath frwdfrydedd erioed yn yr ardal.

Fore trannoeth cyhoeddodd meistr y filodfa mai nifer y rhai a fu yn y sioe oedd dros dair mil o drigolion a bod eu hymddygiad yn tra rhagori ar bobl Caernarfon, a Llanberis. Chwarae teg iddo fe ddywedodd yr un geiriau ym Mangor y noson ddilynol, a cheryddu pobl Bangor am fod mor afreolus, a chofier nad oedd hogiau'r colegau yno yr adeg hynny i wneud trwr a direidi!

'Town Crier' Ebenezer

Hen enwau Deiniolen yn 1871 oedd Ebenezer a Llandinorwig a'r flwyddyn honno penderfynwyd cael "cyhoeddwr trefol" yno. Y person a gymeradwywyd i'r swydd oedd Mr Hugh Williams, y barbwr, Ebenezer. Arholwyd ac archwiliwyd ei lais gan Sam Jones, Glan Dinorwig, a Thomas Herbert, y masnachydd. Wedi cael eu boddioni ei fod yn addas i'r swydd bwysig cafodd siwt, sef côt ac ymylau melyn, a het a belt llydan o'i hamgylch, a rhoddwyd cloch bres yn ei law. Yna, urddwyd ef gan dorri'r corn olew ar ei ben, gan W. Thomas, Tan y Berau, a W.D. Pritchard, Macpela House. Yna anerchiadau barddonol gan Hasan, Ioan Awrlais, ac Evan ap Thomas, ac mewn rhyddiaith gan Taliesin Eryri, a Twm 'Stiniog.

Yna, caneuon gan Eos Cynfi a'i fechgyn. Gynted â bod hynny drosodd daeth nodyn o'r llwyfan i'r criwr a thâl iddo am gyhoeddi yn y cyfarfod fod yno ferch ifanc wedi colli'r pad oedd yn dal ei gwallt i fyni - "chignon" y gelwid ef. Aeth y "town crier" ymlaen i'r llwyfan i gyflawni ei gyhoeddiad cyntaf o hysbysu am golled yr eneth. Yr oedd y lle yn ferw o hwyl a hwre a chwerthin. Nid yw'r hanes yn dweud fod yr eneth wedi cael ei "chignon" ac nis gwn faint o dâl gafodd Hugh Williams. Yr unig gŵyn yn ei erbyn oedd dweud ei fod rhy bregethwrol.

Dyn y Stondin Gwerthu 'Watches'

Goruchel y mae'n sgrechian, - cena gwael,

Cynnig watch am chweigian:
Clywch ei geg, goeliwch 'i gân
A'i ergyd? - "Dyma fargan"!

Glan Rhyddallt

Plant y Pentref

Gwilym, Gwyneth ac Olwen - a Morys,

Mai, Eurwen a Rhydwen:
Glyn, Ifor, Gwynfor a Gwen,
Dilys, Meirion a Deilwen.

Ioan Brothen

BRYNREFAIL

CLWB Y MAMAU - Agorwyd y tymor newydd gyda'r cyfarfod cyffredinol blyneddol yn Nhŷ Glas. Penodwyd y swyddogion, sef Mrs Carol Houston i aros fel llywydd, Mrs Helen Jones fel ysgrifenyddes a Mrs Audrey Hasson fel trysorydd. Darparwyd y te gan Helen Jones a Rhian Jones, rhoddwyd anrheg y mis gan Liz Thomas ac fe'i enillwyd gan Sheila Williams. Gobeithir annog aelodau newydd, ac fe roir croeso i unrhyw un a ddaw ymlaen i'r cyfarfod nesaf ar Hydref 14.

CLWB PEDWARUGAIN - Enillwyr mis Awst. Awst 6 - 1. Margaret Jones 2. Helen Roberts 3. Delyth Williams. Awst 13 - 1. Gary Jones 2. Geraint Roberts 3. Jill, Siop ganol. Awst 20 - 1. Gwyn Mowl 2. Ann Jones 3. Shirley Roberts. Awst 27 - 1. Priscilla Collins 2. Eifion Roberts 3. Mr Mowl.

LLWYDDIANT - Llongyfarchiadau i Islwyn Williams, Dinorwic House, ar ei lwyddiant mewn arholiadau yn Ysbyty Prifysgol Cymru, Caerdydd. Bu ar gwrs yn ymwneud â'i waith yn ysbytai Gwynedd, ac fe lwyddodd gyda chlod mewn arholiadau'n gysylltiedig â llawfeddygaeth ac anaesthetig. Bydd yn cael ei gyflwyno gyda diploma yng Nghaerdydd ddechrau'r flwyddyn newydd.

SEFYDLIAD Y MERCHED - Cafwyd noson ddifyr iawn yn gwranddo ar Jennie Williams yn traddodi ei hanes ar ei thaith i'r America. Darparwyd y te gan Pat Jones a Betty Owen. Rhoddwyd anrheg y mis gan Sheila Williams, ac fe'i enillwyd gan Rhian Jones.

GARTREF O'R SELAND NEWYDD - I'r rhai ohonom a fu yn y 'Villa Pontana' ar Awst 21, yn terfynu diwrnod y carnifal, cawsom gwmni difyr iawn un o deuluoedd y pentref oedd wedi casglu at ei gilydd o bob rhan o'r wlad a'r byd. Cyfeirio rwyf at deulu Eirwyn a Shirley Jones o'r Seland Newydd, sydd wedi treulio'r haf gyda mam Eirwyn, sef Mrs Hannah Jane Jones, 7 Tremelilan.

Ymfudodd Eirwyn i Seland Newydd 2 mlynedd yn ôl. Mae ei wraig Shirley hefyd o'r ardal hon - o Benisrwaun. Er na fuont adref i'r hen wlad ers ymfudo, maent wedi cadw cysylltiad agos ar hyd y blyneddoddd - yn enwedig ers derbyn yr Eco bob mis ers y cyhoeddiad cyntaf. Maent wedi derbyn croeso cynnes iawn yn ardal

eu mebyd, ac wedi cyfarfod rhai o blant y teulu (11 o nithoedd a neiaint) am y tro cyntaf.

Dymuna Eirwyn a Shirley ddiolch i bawb am y croeso bythgofiadwy, ac am y cyfle o ymarfer yr hen iaith oedd yn dal yn rhugl ers yr holl flynyddoedd. Diolchwn ninnau iddynt hwy am eu cwmni, gan ddymuno taith ddiogel yn ôl i Seland Newydd ar Hydref 20.

Diolch hefyd am y penillion isod o waith Hannah Mary Roberts, o Ddeiniolen.

CROESO ADREF

Croeso iti, Eirwyn annwyl,
Adre'n ôl i wlad y gân.
Diolch am dy weled eto,
Ar yr aelwyd hapus lân.
Gadael tiroedd Seland Newydd
I Frynrefail dirion glyd,
Lle y rhoddaist y gam gyntaf,
Lle bu mam yn siglo'th grud.

Mae'r anwylaf o'r holl famau
Yma heno gyda ni,
Ni all neb ar wyneb daear
Feddu mam mor fwyn â hi.
A daw brodyr a chwiorydd,
I ymgasglu ger y tân,
I ymadrodd hen storïau,
Ac ailafael yn y gân.

Gan mai byr fydd yr arhosiad,
Dim ond gwyliau gyda ni,
Gwnawn yn fawr o'r misoedd nesaf
O mor braf yw'th gwmni di,
Fe rown groeso brwd i Shirley,
Hon sydd iti'n briod fwyn,
Rhyngot ti, a hi, mae bywyd
Yn llawn cariad, yn llawn swyn.

Fe gawn gerdded yr hen lwybrau
Tros y Clegir at y Glyn.
A chei eistedd unwaith eto,
Ar y bont sydd tros Pen Llyn.
Yma y mae swyn a rhamant,
Sydd yn aros yn y gwaed
Fel na elli, pa mor belled,
Fyth anghoffio yr hen wlad.

Hwyl i Eirwyn, Hwyl i Shirley
Ar eich gwyliau gyda ni,
Ac wrth ganu ichwi heno,
Dyma yw 'nymuniad i.
Brysiwch 'nôl i Gymru eto,
A hir oes am flyyddi mwy,
Duw a'ch cadwo dan ei ofal,
A'ch cysgodi rhag pob clwy.

PONT PEN LLYN - A welsoch yr hysbysiad cyhoeddus ym Mhen-llyn a llythyr Mrs V. Jones, Meillionen yn y rhifyn hwn? A yw hyn yn berygl o ganlyniad i esgeulusdod a dirywiad yr hen bont a roes ysbrydoliaeth i'r bardd, ac sydd yn rhan hanfodol o'n hanes a'n traddodiad. Gwrthwynebwch yn llwyr - cysylltwch â'ch cynghorwyr!



DRAENOG

Clywed bod tim 5-bob-ochr yr Eco wedi chwarae gêm arall - y tro hwn gyda dim ond 4 yn y tim - ac ennill!



BECWS DEINIOLEN

(D.E. & R.P. JONES)

Ffôn: LLANBERIS 870232

BARA FFRES A THEISENNAU BLASUS

Hefyd gwerthwyr CALOR GAS

Mynnwch eich
PAENT a PHAPUR PAPURO
oddi wrth

E.WILSON HUGHES
84 Stryd Fawr
LLANBERIS

Ffôn: Llanberis 870491

MELYSION A BACO AR WERTH HEFYD

ATGOFION AM Y STREIC FAWR

Ymateb i erthygl gan G.O. Jones, Penisarwaun, a ymddangosodd yn yr Eco beth amser yn ôl. Ein diolch i K. Hughes, Llys Meredydd, Waunfawr am ei hanfon inni. Byddem yn falch o dderbyn unrhyw atgofion eraill gan ein darllenwyr.

Rwyf innau'n cofio streic fawr 1926 yn iawn. Roeddwn yn gwneud gwaith nyrsio preifat ar y pryd i Gyngor Sir Surrey. Roedd dwy ohonon ni'r nyrsus yn gorffen gweithio ar yr ugeinfed o Fawrth, a'r streic wedi dechrau er y degfed o'r mis. Roeddwn eisiau teithio o Guildford adref i'r Bala, a'r Prif Weinyddwr yn ceisio'i orau i'm darbwyllo rhag mentro. Ond yr oeddwn wedi bod yn Lloegr ers blynnyddoedd, ac heb fod adref ers blwyddyn. A ph'run bynnag, roeddwn i ddechrau ar fy ngwaith newydd fel nyrs yn y Waunfawr ddiwedd Ebrill. Felly, roedd yn rhaid mentro.

Cawsom ein cario gan un o'r meddygon o Guildford i Lundain, a'n gollwng ger Madame Tussaud. Roeddwn wedi cychwyn ers hanner awr wedi chwech yn y bore. Dywedodd y meddyg fod tram yn pasio heibio yn aml, ac y byddai hwnnw'n ein cario yn syth i orsaf Paddington. Buom yno am oriau heb weld na thram na thacsi, na hyd yn oed blisman. Roedd pawb ar streic. O'r diwedd dyma benderfynu dilyn lein y tram gan obeithio cyrraedd Paddington, ond wedi cerdded am hanner awr roeddwn yn teimlo ein bod ymhellach o'r orsaf na chynt, ac felly, dyma droi'n ôl yn reit ddigalon. Cyrraedd Madame Tussaud o'r diwedd, ac eistedd ar y grisiau i fwyta'r brechdanau a gawsom yn y bore.

Toc, daeth geneth ifanc atom a gofyn y ffordd i Paddington. Roedd hithau hefyd yn methu darganfod yr orsaf. Geneth o Gorwen oedd hi, a braf iawn oedd cael siarad Cymraeg â hi ar ôl bod am fisoedd heb glywed yr iaith. Ymhen hir a hwyr daeth gŵr bonheddig mewn siwt smart heibio, ond yn cario bwced a thecell. Cael ar ddeall ei fod yn un o gyfarwyddwyr y rheilffordd a'i fod am geisio mynd â thrên mor bell â Chaer os gallai.

Wedi cyrraedd Paddington, roedd y swyddfa docynnau a'r ystafelloedd wedi eu cloi, a dim ond toiledau'r dynion oedd ar agor, ond yr oedd hynny'n dderbyniol iawn! Deg o bobl oedd ar y platform; dau o Bwllheli, dau o'r Bermo, dau o Gaer, dau o Birmingham, un o Wolverhampton ac un o Kidderminster. Yr oedd y ddau o Bwllheli wedi bod yno ers bore Sul, heb ddim i'w fwyta ond siocled. Roedd digon o hwnnw i'w gael am geiniog o'r peiriannau gwerthu, a gellid cael deg o wdbeins am rôl hefyd.

Cawsom ginio mewn caffï perthynol i'r orsaf. Pryd digonol am hanner coron. Wedi'r pryd bwyd, roedd yn rhaid i bawb helpu i lenwi

boiler yr injan hefo dŵr. Cawsom gychwyn am hanner nos a chyrraedd mor bell â Birmingham. Roedd y trên yn cael ei tharo â cherrig yn aml, yn enwedig wrth arafu mewn ambell i orsaf. Cawsom baneidiau o de o'r tecell wedi ei ferwi ar dân yr injan, ac er fod blas mŵg arno roedd pawb yn falch o'i gael.

Daeth y trên i Gaer o'r diwedd, ac yno roedd yn rhaid ffarfelio â'm ffrind. Roedd hi angen trên i Gaerdybi er mwyn dal y cwch drosodd i'r Iwerddon. Aeth y trên ymlaen am Riwbabon, ond yno roedd ugeiniau o lowyr yn disgwyl amdanom. Cafodd y gyrrwr druan ei dynnu o'r trên, a lluchiwyd ein bagiau ninnau hefyd oddi arni. Doedd dim gobaith i'r trên fynd ymhellach.

Roedd deng milltir ar hugain arall i'r Bala, a dim modd teithio. Ond mentrodd rhyw fachgen ieuanc o'r Bala brynu dau hen feic am dri swllt a'm herio i reidio'r holl ffordd adref. Doedd dim rhaid gofyn ddwywaith! Cyrraedd adre am unarddeg o'r gloch y nos.

Roedd yr holl siwrnai wedi parhau o fore Llun hyd nos Sadwrn, gan gynnwys dau ddiwrnod yn Birmingham. Ychydig iawn o fwyd a gawsom yr wythnos honno, a llai fyth o gyfle i molchi, ond rhywsut daeth pawb dros yr wythnos honno gyda help y baned de o'r tecell ar dân yr injan drên.

CYNGERDD YNG NGHAPEL COCH

Bydd Elinor Bennet, y delynores enwog, a'r bariton Robert Wyn Roberts, Bontnewydd, yn perfformio mewn Cyngerdd yng Nghapel Coch, Llanberis nos Iau Hydref 7. Bydd y grŵp canu ysgafn 'Gwlith' hefyd yn cymryd rhan. Cyfeillydd y noson fydd Ann Pritchard, Llanberis.

Mae Robert Wyn eisoes wedi cwblhau ei astudiaethau yn y Coleg Cerdd, Manceinion ac wedi cychwyn ar yrfa fel canwr proffesiynol.

Bydd unrhyw elw a wneir yn mynd at Gronfa Cymdeithas Araf y Meddwl, Cymdeithas Muscular Dystrophy a Chymdeithas dros Glefyd yr Iau.

BETH DDAW O'R HEN YSGOL?



Piano a chwprdd yn un o'r ystafelloedd — a llyfrau'r Ysgol Sul ar y llawr. Mae cyflwr hen ysgol Glanmoelyn yn achosi pryder i drigolion a rhieni yn Llanrug. Mae'r adeilad, sy'n brysur ddadfeilio, yn sefyll ar lain o dir gyferbyn ag ystâd o dai ac ar bwys cae chwarae. Yn y wal rhwng y cae chwarae a thir yr ysgol mae bwllch ac mae'r llwybr drwyddo wedi'i droedio'n bur dda.

Yn eu tro, daw amryw o blant o bob oed, o bob cwr o'r pentref i chwarae yn yr hen ysgol Eglwys neu o'i chwmpas. Dywedodd un o drigolion y tai cyfagos wrth yr Eco iddo weld rhai bechgyn ar y to. A'i bryder ef, fel gydag amryw o rieni'r cylch yw y gall damwain ddifrifol ddigwydd yno.

Dirywio'n arw fu hanes yr adeilad yn ystod y blynnyddoedd diwethaf a briw i'r llygaid yw'r lloriau coed sy'n pydru yn y mannau lle disgynna'r glaw drwy'r to, a'r gwydr, y plaster a'r sbwriel yn gymysg ar y llawr. Mae dodrefn yno hefyd — cypyrddau, bwrdd a phiano.

Eiddo'r Eglwys yng Nghymru yw'r adeilad a'r tir o'i amgylch.

Bu llawer o sôn yn Llanrug ar hyd y blynnyddoedd am Ganolfan

Gymdeithasol. Oni fyddai posibiliadau yn hen ysgol Glanmoelyn, hynny yw, pe byddai'r Eglwys yn barod i werthu a phe byddai pobl Llanrug yn barod i ymgymryd â'r gost?

Mae un hen ysgol arall yn Llanrug, sef Bryn Eryr, yn nwylo Pwyllgor Addysg un o siroedd canolbarth Lloegr.

AR WERTH

Boncyffion a choed tân — Melbourne House, Llanrug.

Awdurdod Datblygu Cymru

**A ydych chi mewn busnes?
A ydych chi'n meddwl
cychwyn ar eich pen eich hun?**

Mae Uned Diwydiannau Bychan yr Awdurdod yma i'ch helpu i fod yn llwyddiannus.

Fe gewch gyngor gan arbenigwyr profiadol ym mhob agwedd o redeg busnes. Yr ydym wedi dysgu sut i ddewis y ffordd orau i lwyddo ac yn gwybod am yr anawsterau.

Gallwch fanteisio ar ein cysylltiadau niferus gyda mudiadau eraill sydd yn awyddus i'ch cynghori, ac mae benthyciadau ar log isel ar gael i rai mathau o weithgareddau.

Mae eich swyddfa leol ym Mangor. Cysylltwch â ni i drefnu cyfarfod gydag un o'n cynghorwyr; cewch drafod eich syniadau a'ch gofynion yn rhad ac am ddim.

Uned Diwydiannau Bychan,
Awdurdod Datblygu Cymru,
Isnant, Ffordd Glynne,
Bangor. Ffôn Bangor 52606

**Welsh
Development Agency**

CABS PADARN

FFÔN:

LLANBERIS 871347

Gwasanaeth Tacsi a Bws Mini

Gwasanaeth Maes Awyr a Phorthladd

Unrhyw bellter: Hur Contract

06190 – O CHWECH I NAW DEG!



Tudalen i'r
plant: hen
ac ifanc
gan
**DYFRIN
Y
DEWIN**

CHWEDLAU MORLADRON YR YNYSOEDD PELL HELYNTION Y TRI MÔR-LEIDR

Roedd unwaith dri o fôr-ladron. Môr-leidr coch; môr-leidr gwyrdd a môr-leidr glas. Roeddynt bob amser yn gwisgo dillad o'r un lliw â'u henw. Ond het ddu ac esgidiau duon oedd gan y tri ohonynt. Roedd y tri môr-leidr yn cario cylllell finio i bobman.

Un diwrnod, penderfynodd y tri fynd i guddio eu trysor o aur ar ynys unig. Sach ddu yn llawn o aur oedd gan y môr-leidr coch a'r môr-leidr gwyrdd, ond sach las yn llawn o aur oedd gan y môr-leidr glas.

Llong ddu a hwyliau coch arni oedd gan y môr-leidr coch. Hwylodd i'r ynys unig ac ar ôl glanio, llusgodd ei sach ar hyd y traeth a'i chuddio dan goeden. Yna, hwylodd i ffwrdd o'r ynys. Nid oedd wedi sylwi ei fod wedi gadael ei het ar ôl ar yr ynys.

Llong ddu a hwyliau gwyrdd arni oedd gan y môr-leidr gwyrdd. Hwylodd yntau i'r ynys unig, ac ar ôl glanio, llusgodd yntau ei sach ar hyd y traeth a'i chuddio dan goeden. Yna, hwylodd yntau i ffwrdd o'r ynys. Nid oedd wedi sylwi ei fod wedi gadael ei gyllell finio ar ôl ar yr ynys.

Llong ddu a hwyliau glas arni oedd gan y môr-leidr glas. Hwylodd i'r ynys unig ac ar ôl glanio, llusgodd ei sach ar hyd y traeth a chuddio'r trysor o dan goeden. Yna, hwylodd i ffwrdd o'r ynys. Ond roedd y môr-leidr glas wedi gadael ei esgidiau ar ôl ar yr ynys.

Anghofiodd y môr-leidr coch am ei het, ac anghofiodd y môr-leidr gwyrdd am ei gyllell finio. Ond doedd hi ddim yn hawdd iawn i'r môr-leidr glas anghofio am ei esgidiau! Felly, hwylodd yn ôl i'r ynys unig i chwilio amdanynt.

Ar ôl glanio daeth o hyd i het y môr-leidr coch a chyllell y môr-leidr

gwyrdd. Penderfynodd nad oedd yr ynys yn ddiogel iawn i gadw'r trysor. Chwiliodd am y goeden a dechrau tyllu. Yn fuan daeth ar draws ei sach las. Cariodd y sach las yn ôl i'w long a hwylodd ymhell o'r ynys unig. Cofiodd iddo unwaith glywed sôn am ynys bell o'r enw Malwmali. Penderfynodd y môr-leidr glas chwilio am ynys Malwmali a chuddio ei drysor yno.

Roedd y môr-leidr glas wedi cael cymaint o fraw oherwydd fod y môr-leidr coch a'r môr-leidr gwyrdd yn gwybod am yr ynys unig fel iddo anghofio popeth am ei esgidiau am yr ail waith! Ond ni fentrodd yn ôl i chwilio amdanynt. Hwylodd i ffwrdd dros y môr i chwilio am ynys Malwmali. Efallai fod esgidiau newydd i'w cael yno!



W.J. GRIFFITH

PLYMAR
A GOSODWR
GWRES CANOLOG
PANT TIRION, LLANRUG
Ffôn: Caernarfon 3248
GOSODWR SWYDDOGOL
SYSTEMAU
GWRESOGI OLEW
GWRES BP



Aelod o'r National
Association of
Plumbing and Mech-
anical Services
Contractors.

Dim un dasg rhy fychan,
Dim un dasg rhy fawr..

WELDIO OFFER FFERM A PHEIRIANNAU DIWYDIANNOL

GWNEUD GIATIAU,
FFENSYS AC ATI
AR GYFER Y CARTREF

ATGYWEIRIO TAI
GWAIR

E. PUGH

WELDING &
FABRICATING
32 GLANFFYNNON
LLANRUG
Ffôn: Caernarfon 5394

OFFER TRIN COED

Y	LH	L	E	F	I	LH	P
F	F	E	L	W	G	E	L
I	Ng	I	LH	O	B	Y	A
L	R	I	R	Y	W	W	E
LH	O	Dd	A	Th	C	B	N
Y	W	I	R	G	S	Y	E
W	H	O	E	L	I	O	N
Rh	M	Y	N	A	W	Y	D

Mae'r geiriau hyn wedi'u cuddio yn y sgwâr: MORTHWYL, BWYELL, PLAEN, HOELION, LLIF, CYN, SGRIW, MYNAWYD, GAING, RHWYLL-LIF, GORDD, CYLLELL. Mae'r llythrennau sy'n weddill yn rhoi enw arf sy'n ddefnyddiol i benderfynu a yw'r coedyn yn wastad!


BETH AM GÊM NEWYDD?

Y 'LIWI-LIWI'

Mae'r gêm hon wedi bod yn boblogaidd ymysg pobl yr Aymara ym mynyddoedd yr Andes ers canrifoedd. Ei henw yw 'LIWI-LIWI'. Roedd y Liwi yn cael ei ddefnyddio ers talwm i hela anifeiliaid o'r enw guanaco, ond ychydig iawn o bobl sy'n hela felly erbyn heddiw, a defnyddiwyd y Liwi i chwarae gêm gan y plant.

Gall unrhyw nifer o blant chwarae ar unwaith, ond rhaid i bob un ohonynt gael Liwi. Mae'n hawdd iawn gwneud un. Torrwch gortyn yn dri darn o tua tair troedfedd yr un. Ym mhen pob darn rhowch belen fechan neu ddarn bychan o garreg, ac yna clymu'r tri phen rhydd gyda'i gilydd. Mae'r darlun yn dangos sut.

Mae un plentyn yn taflu ei Liwi yn uchel i'r awyr. Yna, mae'r plant eraill i gyd yn taflu ei Liwis hwythau, gan geisio eu cael i glymu am y Liwi cyntaf. Mae'r cyntaf i lwyddo yn cael un marc, ac yna mae'r gêm yn ailddechrau. Y cyntaf i ennill deng marc neu ugain o farciau sy'n ennill y gêm.



Ar gyfer pob parti . . .
I ddathlu pob achlysur . . .




Gwesty'r Foelas

(Richard a Meirwen
Thomas)

Llanrug

Ffôn: CAERNARFON 4652

LLUN I'W LIWIO



Y BIG-GORNIOG

Aderyn llachar a swnllyd yn byw yn y fforestydd trofannol ac ar gyrion y safana. Mae llawer math gwahanol ohonynt i'w cael, yn enwedig yn Affrica a'r India.

Sylwch! ar y tyfiant o groen caled o'i ben i'w big sy'n rhoi ei enw iddo. Efallai fod eich taid neu eich nain yn cwyno am fod cynnau eu traed, ond mae'r aderyn hwn, druan bach, â chorn ar ei big!!

CASGLU CERRIG SUT I GADW EICH SAMPLAU

Mae'n angenrheidiol cadw'r samplau yn ddiogel. Waeth heb â'u cadw i gyd gyda'i gilydd mewn un dror neu byddant wedi crafu'n erbyn ei gilydd a difetha. Rhaid eu labelu'n gywir a'u cadw mewn cwpwrdd pwrpasol. Mae'n hawdd iawn gwneud un o'r rhain.


Rhaid casglu nifer o focus matsus gwag – i gyd o'r un maint – a'u gludo gyda'i gilydd, un ar ben y llall fesul rhes. Mae gennych yn awr 'gwpwrdd' yn llawn o ddroriau. Rhaid torri'r samplau cerrig i ffitio tu mewn i bob dror, a'u gosod oddi mewn ar orchudd o wllan cotwm. Yn anffodus, ni ellir gwneud cwpwrdd bocsus matsus mwy na 30 dror neu bydd yn rhy simsan.

Gellir gwneud cwpwrdd gwell a chryfach drwy ddefnyddio coed balsa a'u gosod oddi amgylch y bocsus matsus i'w cryfhau. Bydd angen gludo darn bychan o bren ar flaen pob dror wedyn, er mwyn medru eu hagor a'u cau.

CAWS-LLYFFANT

Mae tymor casglu madarch bron â gorffen bellach. Ys gwn i faint ohonoch fu allan yn y bore bach yn eu casglu? Gobeithio na wnaethoch eu camgymryd am gaws llyffant.

Mae hen gred fod y Tylwyth Teg yn hoff iawn o ddawnsio o amgylch caws llyffant a'u bod yn eistedd arnynt wedyn i orffwyo. Mae dau o'r caws llyffant yn y llun uchod yn union yr un fath. Pa ddau?



BILL ac EILEEN GRIFFITHS



Antiques Ivy Cottage BETHEL

Ffôn:
Y FELINHELI 670556

PRYNWYR A GWERTHWYR HEN BETHAU

Telir prisiau da
Trafodir busnes yn gwbl breifat a chyfrinachol

E.W. Pritchard CENTRAL GARAGE Llanberis

Ffôn: 870202

TREFNWYR ANGLADDAU
CEIR AR GYFER PRIODASAU
GWASANAETH TACSI

LLANRUG

MERCHED Y WAWR – Nos Fawrth Medi 14 cafwyd 'Noson Clonc a Choffi' gan gangen Llanrug o Merched y Wawr.

Llywyddwyd gan Mrs Ann Llwyd, llywydd y gangen, a chroesawodd yr aelodau i gyfarfod cyntaf y tymor. Cydymdeimlwyd â Mrs Lovatt ar golli ei mam yng nghyfraith ac â Mrs Dorothy Williams ar golli ei chwaer. Cyfeiriodd y llywydd hefyd at farwolaeth sydyn Mr Eric Morris a datgan cydymdeimlad yr aelodau â Mrs Nancy Morris a'r teulu oll yn eu profedigaeth.

Ar gyfer y noson darparwyd stondinau cacennau a chynnyrch cartref a gwnaed elw o £31. Enillydd y raffl – bocs o nwyddau oedd Mrs Owen, Trigle. Ar ddiwedd y cyfarfod pan yn hysbysu'r cyfarfod nesaf sef 'Straeon Ysbryd' gan Mr John Owen Huws, dywedodd y llywydd y bydd cystadleuaeth gwneud mwgwd ar gyfer y noson. Cynhelir y cyfarfod nesaf yn yr Ysgol Gynradd nos Fawrth, Hydref 12.

LLONGYFARCHIADAU i Anwen, merch Mr a Mrs R.G. Jones, Tegerin ar gwblhau cwrs mewn Biocemeg yng Ngholeg Politechneg, Lerpwl ac ennill gradd B.Sc.

RHODDION ER COF – Derbyniwyd y swm o £227 mewn rhoddion er cof am y ddiweddar Mrs Ann Ellen Rowlands, Cilmeri, 5 Hafan Elan tuag at Gronfa Ymchwil Arthritis. Dymuna'r teulu ddiolch i bawb am eu haelioni.

CLWB BLODAU'R GRUG – Ddydd Mercher, Gorffennaf 7 aeth yr aelodau ar wibdaith i Bwllheli, Aberdaron ac yna'n ôl i Dŷ Bwyta'r Gwyndy, Llanystumdwy am bryd o fwyd. Dymunwyd yn dda i Mr a Mrs Harry Roberts, 2 Tai Plastirion ar ddatlu eu Priodas Aur, Gorffennaf 15. Mwynhaodd pawb ei hun yn fawr iawn.

Ddydd Iau, Medi 9 cynhaliwyd cyfarfod cyntaf y tymor dan lywyddiaeth Mr John Williams, Gweledfa. Y wraig wadd oedd Miss Edith Evans, Eryri Wen, Beddgelert (Telynores Eryri); cafwyd anerchiad diddorol ganddi ar 'Hunangofiant'. Diolchwyd iddi gan Mr Orwig Roberts a Mr Inigo Jones.

Dymuna'r Clwb wellhad buan i Mr a Mrs R. Owen, 1 Rhos Rug a Mrs K. Griffith, 20 Hafan Elan.

Rhoddwyd y te gan Mrs Jones, 18 Hafan Elan, Mrs K. Griffith, 20 Hafan Elan a Mrs N. Williams, 19 Glanmoelyn.

Rhoddwyd y raffl gan chwiorydd y te a'r enillydd oedd Mrs J. Davies, Plas Gwyn.

Bydd y cyfarfod nesaf Hydref 14. Cytunwyd i roddi rhodd o £50 tuag at y Neuadd Goffa.

PRIODAS – Ddydd Sadwrn, Medi 11 yng Nghapel Mawr, Llanrug priodwyd Anwen Jones, merch Mr a Mrs R.G. Jones, Tegerin ag Ian Peter Lawlor, mab hynaf Mr a Mrs W. Lawlor, Tŷ Celyn, Betws yn Rhos. Gweinyddwyd gan y Parch W.O. Roberts. Byddant yn ymgartrefu yn 5 Bryn Eirin, Moelfre, Abergele. Dymunir pob hapusrwydd iddynt.

CYMDEITHAS CHWIORYDD CAPEL MAWR – Nos Iau, Medi 9 am saith o'r gloch cynhaliwyd noson goffi yn y festri. Dechreuwyd trwy ddefosiwn gan Mrs N. Roberts, Manod. Anfonwyd cofion at y chwiorydd oedd yn methu â bod yn bresennol ond a oedd wedi anfon eu rhoddion mewn nwyddau ac arian. Dymunwyd adferiad iechyd i'r rhai sydd yn wael. Croesawodd y llywydd, Mrs M. Pritchard, Golygfa a oedd gyda ni am y tro cyntaf, a hefyd i'r holl aelodau ar ddechrau ein tymor fel chwiorydd. Rhoddwyd y coffi gan Mrs Beryl Thomas, Gerallt a Mrs Nancy Roberts, Manod. Pasiwyd i gynnal y ffair Nadolig fel arfer ar y dydd Iau cyntaf o Ragfyr, sef Rhagfyr 2. Bydd y cyfarfod nesaf nos Iau, Hydref 7 am saith o'r gloch.

CANOLFAN HAFAN ELAN – Nos Iau, Medi 16 cynhaliwyd cyngerdd gan barti Lleisiau'r Gweunydd. Croesawyd hwy gan Mrs D. Jones, cadeirydd y pwyllgor ac arweiniwyd y cyngerdd gan y Parch Ronald Wyn Roberts, B.A.

Treuliwyd noson ragorol i agor gweithgareddau'r tymor newydd. Diolchwyd i'r parti gan Mr Cecil Williams, Rhif 19 a Mrs M.M. Williams, Rhif 25.

Mae dwy o'n cymdogion wedi derbyn triniaeth lawfeddygol yn ddiweddar sef Mrs Jones, Rhif 17 a Mrs Griffiths, Rhif 20. Da yw gweld fod y ddwy yn gwella.

Mae dwy arall ar hyn o bryd yn wael sef Mrs Morris, Rhif 23 a Mrs Jones Rhif 15. Dymunwn wellhad buan iddynt.

Y GYMDEITHAS UNDEBOL – Bydd cyfarfod cyntaf y tymor nos Fawrth, Hydref 26 pryd y disgwylir Mr Hugh Humphreys, Llanrwst (gynt o Dan y Coed) i roi sgwrs.

Mae'r rhaglen eisoes wedi ei chwblhau ac edrychir ymlaen am dymor llwyddiannus. Bydd croeso cynnes i aelodau newydd ymuno â ni.

DIOLCH – Mae pwyllgor 'Pnawn Pop' yn diolch i bawb a wnaeth y pnawn yn llwyddiant. Gwnaethom £32.50 o elw at Gronfa Bywyd Gwyllt y Byd (WWF). Enillwyd y raffl gan Sharon Roberts, 11 Nant y Glyn, a'r ail oedd Iwan Llŷr, Glanffynnon, gyda Bryn Geraint Jones, Cwawia yn drydydd. Miriam Davies, Stad Minffordd oedd yn fuddugol am enwi'r ci.

CYMDEITHAS Y CHWIORYDD – Cynhaliwyd Cymdeithas y Chwiorydd, Pontrhythallt bnawn Iau,

Medi 16 am 3 o'r gloch. Dechreuwyd y cyfarfod trwy weddi dan arweiniad y llywydd Mrs Ivor Williams, Gwelfryn, a'r rhan agoriadol gan Mrs W.A. Jones, Y Dalar Deg. Cawsom anerchiad rhagorol gan Mrs Jones. Y tair chwaer oedd yn gyfrifol am y te oedd Mrs Ivor Williams, Gwelfryn, Mrs H. Jones, Bron Wylfa a Mrs N. Owen, Trigle.

I'R YSBYTY – Yn ystod yr wythnos aed ag Ieuan, mab Mr Gareth Griffith a'r ddiweddar Gwyneth Griffith, Goleufryn, i Ysbyty Alderhey, Lerpwl. Dymunir adferiad iechyd buan iddo. Mae Ieuan yn un o ffyddloniaid yr Ysgol Sul ym Mhontrhythallt.

CYDYMDEIMLAD – Estynnir ein cydymdeimlad dwysaf â Mr George Lovatt, Brwynog ar farwolaeth ei fam yn ddiweddar.

RALI MOEL-Y-DON

Saith gan mlynedd yn ôl ar Dachwedd 6ed 1282 bu brwydr ar Lannau Menai. Trechwyd byddin Seisnig a groesodd o Foel y Don ar Ynys Môn i'r Felinheli, dros bont o gychod i ymosod ar Eryri, gan Llywelyn II a'i wŷr.

I goffáu'r fuddugoliaeth hon cynhelir rali, sydd yn rhan o gyfres o ralïau i goffáu Tywysog Cymru, wrth ymyl hen lanfa'r fferi |ar| Lan, Môr (Beach Road) y Felinheli, am 2 o'r gloch brynhawn dydd Sadwrn, Tachwedd 6ed, 1982.

Yn y rali ceir areithiau gan **Dafydd Wigley, A.S., Dafydd Iwan** a'r siaradwraig hanesyddol wadd **Nia Powell**, a dadorchuddir cofeb â'r geiriau:

Brwydr Moel y Don

Tachwedd 6ed 1282

Buddugoliaeth Fawr i'r Cymry o dan arweiniad Llywelyn II arni, gan Dafydd Wigley.

STORFA

Mace

O.R. & M. PARRY

Sgwâr Llanrug

Caernarfon 2790

Dewis hael o fwydydd, llysiau a diodydd

TAN-Y-COED

MARW – Ddydd Iau, Medi 10 brawychwyd yr ardal â'r newydd trist am farw sydyn Mr Eric Morris, Awelfryn. Claddwyd ef ym mynwent y plwyf ddydd Mawrth, Medi 14. Y Rheithor, y Parch Aled Jones-Williams; cyn-Reithor y plwyf, y Parch D. Gwynfor Williams a'r Parch W.O. Roberts oedd yn gweinyddu.

Y mae cydymdeimlad diffuant yr ardal â'i briod Mrs Nancy Morris, ei ddwy ferch, Miss Eirian Morris a Mrs Rhiannon Stokes ac â Siôn sydd wedi colli taid annwyl, a'r teulu oll yn eu galar a'u hiraeth.

Bu Mr Eric Morris yn gymwynaswr mawr i aelodau Merched y Wawr a Chymdeithas Undebol Pontrhythallt o'r cylch yma. Cludodd hwy yn ddi-fwlch i'r cyfarfodydd hyn. Heblaw y gymwynas fawr hon yr oedd at alwad rhywun oedd angen cymorth ei fodur bob amser at wasanaeth brys. Diolch am a gafwyd ganddo, ac ei wên a'i hynawsedd – gŵr aeth o amgylch gan wneuthur daioni.

Ddydd Sul, Medi 19 daeth newydd trist arall i'r fro – newydd am farw sydyn un o blant yr ardal, Mrs Katie Williams, 6 Ffordd Tan Rhiw, Tregarth, merch y diweddar Mr a Mrs Evan Williams, Bryn Marion gynt, chwaer Wil (America), Mary, Alice, Robert a Jack.

Cydymdeimlwn â'i merch, Rowena, ei dwy wyres a'i hŵyr, ei brodyr a'i chwiorydd a'r teulu oll yn eu profedigaeth sydyn.

CROESO ADRE i Mrs Joan Williams, Gilfach, a'n dymuniadau da iddi. Parhaed i wella ar ôl cyfnod yn Ysbyty Dewi Sant, Bangor.

Da deall hefyd fod Mr Gwilym R. Hughes yn gwella ar ôl triniaeth feddygol i'w law. Ein cofion a'n dymuniadau da iddo yntau.

Sauna
Gwely Haul
Wacsio
Slender
tone

SAUNA MTDANI

Dydd Llun
Dydd Gwener
12.00-9.00pm

STRYD FAWR BETHESDA
600140



I DRWSIO'R TELEDU NEU'R RADIO FFFONIWCH...

Osmond W. Shaw

DEINIOLEN

Ffôn:

LLANBERIS 870545

Gwasanaeth 'run diwrnod os ffoniwch cyn 10 o'r gloch y bore

SCIPIAU TIM



o £16

CYTUNDEB DYDDIOL NEU WYTHNOSOL

LLANBERIS 871354

SETIAU TELEDU LLIW AIL LAW MEWN CYFLWR RHAGOROL SIOP TELEDU

T. CEPAS
Ffordd yr Orsaf
LLANRUG

Ffôn: Llanberis
870205

CHWILOTA

(Bwriad y gyfres hon yw 'chwilota' i hen hanesion, chwedlau a digwyddiadau yn ardal bro'r 'Eco'. Esgyrn sychion yn unig fydd y mwyafrif ohonynt, ond gobeithir cael mwy o gnawd ar ambell un gyda help y darllenwyr. Os oes gan unrhyw un sylw neu wybodaeth ar unrhyw destun yn y gyfres, byddwn yn falch o glywed gennych. Anfonwch eich cyfraniadau i'r Golygydd Erthyglau.)

DAU FEDD : UN ENGLYN

Tachwedd 28, 1852, llofruddiwyd bachgen o'r enw Robert Jones, mab i Richard a Jane Jones o Dyddyn Pwll, plwyf Pentir. Roedd yn un ar bymtheg oed. Ni ddarganfuwyd y llofrudd, ond yr oedd dau hanesyn yn cael ei adrodd yn lleol i geisio egluro beth yn hollol a ddigwyddodd.

Yn ôl un traddodiad, byddai'r bachgen byth a hefyd yn tynnu coes un o chwarelwyr yr ardal wrth i hwnnw ddychwelyd am adref bob nos. Roedd y tynnu coes hwn wedi cythruddo cymaint ar y chwarelwr nes iddo fygwth y bachgen. Yn ôl rhai, fe'i clywyd yn dweud "Mi lladda'i di ryw ddiwrnod."

Yn ôl stori arall, roedd y bachgen, Robert Jones, yn dychwelyd o Fangor ryw noson, ac ymosodwyd arno a'i ladd gan rywun neu rywrai rhwng Minffordd a Phentir. Roedd yr ymosodwyr yn amlwg yn credu bod arian ganddo.

Tybed pa un o'r ddau fwriad oedd yn wir? Ai dialedd os mai'r chwarelwr a'i lladdodd? Ynteu ariangarwch? Mae'n debyg na chawn byth wybod y gwir - os nad oes rhywun o'r darllenwyr yn gwybod yn wahanol!

Ar garreg fedd y bachgen ym mynwent Sant Cedol ym Mhentir, mae englynion coffa iddo. Mae'r

englyn olaf yn darllen fel hyn:

Nid pennyd clefyd a'm cloes - nid ingawl

**Nod angau o'i dduloes;
Nid henaint aeth a'm heinioes;
Dyn a fu yn dwyn fy oes.**

Nid yw enw'r awdur wedi ei nodi ar y garreg.

Diddorol yw nodi fod yr un englyn yn union i'w gael ym mynwent Llanddeiniolen - a'r dyddiad yw 1854; ddwy flynedd union ar ôl llofruddiaeth Robert Jones. Y tro hwn, gosodwyd yr englyn ar fedd merch a laddwyd yn ôl traddodiad â chryman gan ddyn gorffwyll.

Mae'r englyn, a dyddiad y ddwy farwolaeth, yn awgrymu mai lleol oedd awdur yr englyn. Oes unrhyw un a all roi mwy o wybodaeth ynglŷn â hyn?

BILIDOWCAR YN ÔL

Mae'r Bilidowcar yn hedfan dros Gymru unwaith eto!

Ar ôl blwyddyn o seibiant mae Bilidowcar yn ôl ar yr awyr ym mis Tachwedd, ac mae'r BBC wrthi'n brysur yn casglu deunydd i'w nyth.

Os oes gennych unrhyw awgrymiadau, syniadau, hys-bys, datganiad i'r wasg ac ati a fyddai'n addas i'r rhaglen, cysylltwch â'r BBC yn:

Swyddfa Bilidowcar,
Ystafell E3111,
Canolfan y BBC,
Caerdydd CF5 2YQ

MEDDYLIWCH!

Yn ôl rhai awdurdodau nid yw blodfresych yn ddim ond bresych wedi cael addysg coleg!

ATEBION tud 8 a 9
Caws llyffant 2 a 7.
Offer trin coed: Y Lefel Wirod.

DINORWIG

LLONGYFERCHIR Miss Alison Jones, Foelgron a Miss Marina Bryn Roberts, Tŷ'r Ysgol ar eu llwyddiant gyda'r arholiadau lefel 'O'. Da iawn genod. Hwyl i'r dyfodol.

DYMUNIADAU GORAU i Mr a Mrs Derec Williams, Bron Eilian ar ddathlu eu priodas arian, Medi 7 eleni.

LLONGYFARCHION i Mr David R. Jones, Bron Myfyr ar gyrraedd ei ben-blwydd yn 80 oed, Medi 6, a hefyd i Mrs Annie Jones, 5 Maes Eilian ar gyrraedd ei phen-blwydd yn 80 oed, Medi 23.

LLONGYFARCHIADAU i Miss Gwyneth E. Davies, 10 Bro Elidir ar ei llwyddiant gyda'i harholiadau lefel 'A'. Bydd yn mynd i Goleg y Normal, Bangor am astudiaethau pellach.

CYDYMDEIMLIR â Mr a Mrs D.R. Jones, Bron Myfyr ym marw chwaer Mrs Jones ym Mangor. Hefyd Mr a Mrs Hugh Jones, a Miss Ellen Thomas, Buarth Newydd ym marw chwaer Mrs Jones, a Miss E. Thomas, ym Mangor, yn ddiweddar. Hefyd â'r cysylltiadau teuluol eraill.

YN YR YSBYTY - Aethpwyd â Mrs

LLYFRAU

Dyma'r cnwd diweddaraf o lyfrau i'w cyhoeddi dan nawdd Cynllun Llyfrau Cyd-Bwyllgor Addysg Cymru:

Tomen y Bwlch gan Irma Chilon, Gwasg Gomer. Nofel addas ar gyfer plant o 12 i 14 oed. Pris £1.95

Y Llwybr Disglair gan Hilma Lloyd Edwards, Gwasg Gomer. Nofel hanesyddol ar gyfer disgyblion yn yr ysgol uwchradd. Ganed a maged yr awdures yn y Bontnewydd. Enillodd gomisiwn i gwbllhau'r nofel hon yn Eisteddfod Genedlaethol Caernarfon 1979, pan oedd yn ugain oed. Pris £2.50.

Croes Bren yn Norwy gan J. Selwyn Lloyd, Gwasg Gomer. Un o nofelau Comisiwn Eisteddfod Genedlaethol Dyffryn Lliw 1980. Dyma seithfed nofel J. Selwyn Lloyd a chyhoeddir dwy nofel arall o'i waith yn ystod 1982-3. Pris £2.75

Achub gan Emrys Roberts, Gwasg Cambria. Deuddeg o storïau antur gwir. Dylai'r gyfrol fod yn addas ar gyfer plant rhwng 9 ac 11 oed. Pris £2.50.

Am ragor o fanylion, cysyllter â Philip Wyn Jones, Dirprwy-bennaeth yr Adran Gymraeg, Cyd-bwyllgor Addysg Cymru, 4ydd Llawr, Tŷ Arlbee, Heol y Brodyr Llwydion, Caerdydd. CF1 3AE.

Maggie Roberts, 8 Maes Eilian i ysbyty Môn ac Arfon am driniaeth lawfeddygol. Dymunir adferiad buan iddi. Aethpwyd â Mr Leslie Otter, Afallon i Ysbyty Môn ac Arfon am driniaeth lawfeddygol wedi anaf i'w glun tra'n dilyn ei orchwylion yn y cartref. Adferiad buan fo iddi.

DIOLCHIADAU - Dymuna Mr a Mrs David R. Jones, Bron Myfyr ddiolch o galon i'r teulu, cyfeillion a chymdogion am bob arwydd o gydymdeimlad ddangoswyd tuag atynt yn eu profedigaeth o golli chwaer i Mrs Jones, ym Mangor yn ddiweddar.

Dymuna Mr a Mrs Hugh S. Jones a Miss Ellen Thomas, Buarth Newydd ddiolch yn fawr i'r teulu, cymdogion a chyfeillion am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd tuag atynt ym marw eu chwaer, Mrs Gayney Jones, Bangor yn ddiweddar.

O BANTRI BETH

Sgwn i faint o fenywod eraill ym Mro'r Eco sy'n dweud 'Tomatos - byth eto!' Wel os ydych fel fi, dwi wedi eu berwi, eu ffrio, a'u stwffio er mwyn cael eu defnyddio. Efallai y bydd y resait yma o help ichi. Gyda llaw, yn Tesco maen nhw'n gwerthu darnau o gig moch eithriadol o rad, a'r rhain fydda i'n ddefnyddio i wneud y Pizza yma.

PIZZA CIG MOCH A THOMATOS

Y Gwaelod

4 llond llwy fwrdd o flawd codi
1 llond llwy fwrdd o olew coginio
Pinsiad o halen
Dŵr i gymysgu.

Cymysgwch y bawd a'r halen. Ychwanegwch yr olew a digon o ddŵr i wneud toes. Ffurfiwch y toes yn grwn a'i ffrio mewn padell am 10 munud bob ochr. Rhowch o'r neilltu ar blât i'w gadw'n gynnes.

Y Top

3 owns o gig moch wedi ei dorri
1 wynwsyn wedi ei dorri'n fân
Garlleg (os ydych yn ei hoffi)
8 owns o domatos coch wedi eu torri
1 llwy fwrdd o olew
Ffriwch y cwbl mewn sosban nes bydd y cig wedi ei ddigoni a'i daenu dros y gwaelod. Rhowch tua 2 owns o gaws ar y top a'i rhoi o dan y gril.

At y Dant Melys

CACENNAU YO-YO

3 owns o fargarin
3 owns o flawd codi
1 owns o bowdr cwstard
1 a hanner owns o siwgr icing
Cymysgwch y marg a'r bawd yn dda. Rhowch weddill y cynhwysion drwy ogr a gwneud toes o'r cwbl, Cymerwch ddarnau bach, rholiwch yn beli a'u gwasgu ar dun coginio. Digonwch mewn ffwrn Nwy 4 am tua 10 munud. Ar ôl oeri, gwasgwch ddwy fisgien gyda'i gilydd â menyn melys sef 1 owns margarin ac 1 a hanner owns siwgr icing. Cymysgwch yn dda.

SCIPIAU ARFON

YMGYMERIR Â CHLIRIO SBWRIEL O BOB MATH
SBWRIEL ADEILADU, CARTREF A
DIWYDIANNOL
TELERAU RHESYMOL

Ffôn:

Dydd Caernarfon 5670
Llanfairfechan 680 329

Gyda'r Nos
Llanberis 872236



Wavell Roberts CIGYDD

LONDON HOUSE
LLANRUG

Ffôn: Caernarfon 3574
PEN CIGYDD Y FROI

Yr ŵyn lleol mwyaf
blasus

Selsig cartref, cigoedd
parod i'w bwyta
Archebion ar gyfer
y rhewgist

MYNNWCH Y GORAU
A DEWCH ATOM NI!

MUDIAD ADFER Cangen

Gynfi Bro Gwaun

CYFARFOD

I DREFNU

GWEITHGAREDDAU
82-83

NOS FERCHER
HYDREF 13

am 7.00

Canolfan
Gymdeithasol
Dinorwig

Croeso cynnes i bawb

PENISARWAUN

PRIODAS – Ddydd Sadwrn, Medi 11 yng Nghapel Glanrhyd, Llanwnda priodwyd Wendy Jones, Camelot â David Phillips, 13 Lôn Tŷ Gwyn, Caernarfon. Pob dymuniad da iddynt. Hefyd i Dawn Owen, Siop Gron a Glyn Morris, Weirglodd Goch ar eu dyweddïad.

LLONGYFARCHWN Mr a Mrs Wood, Bryn Arthur ar ddatlu eu priodas Ruddem a gobeithiwn fod Mr Wood yn gwella ar ôl salwch yn ddiweddar.

Mae Trevor Ll. Jones, 6 Bryntirion newydd gyrraedd ei ddeunaw oed. Llongyfarchwn ef a Mrs E.B. Jones, sydd yn hen nain unwaith eto.

DYMUNWN bob hapusrwydd i Mrs M.K. Jones, Tŷ Gwyn, Waun sydd wedi symud i fyw i Ddeiniolen. A dymuniadau da hefyd i Mr Geraint Williams, Careb ar ei swydd newydd yn Saudi Arabia.

GWAELEDD – Mae Mrs K. Jones, 9 Bryntirion yn yr ysbyty ym Mangor. Gwellhad buan iddi.

UNDEB Y MAMAU – Cafwyd cyfarfod o Undeb y Mamau nos Lun, Medi 6. Y gŵr gwadd oedd Mr L. Larsen a rhoddodd sgwrs ddiddorol iawn ar las enwau. Diolchodd Mrs Mowll iddo. Rhoddwyd y te gan Mrs M. Jones, 5 Llys y Gwynt.

EGLWYS SANTES HELEN – Byddwn yn dathlu ein Gŵyl Ddiolchgarwch yn Eglwys y Santes Helen ddydd Sul, Hydref 17 gyda gwasanaeth dwyieithog o'r Cymun Bendigaid. Derbynnir rhoddion gan y plant am hanner awr wedi deg yn y bore ac fe fydd gosber a phregeth am 5 o'r gloch yn yr hwyr pryd y pregethir gan y Parch Dilwyn Carey Roberts, Rheithor Llanllechid.

Nos Fawrth, Hydref 19 cynhelir ffair gynhaeaf yn Neuadd yr Eglwys am 7 o'r gloch.

PROFEDIGAETHAU – Brawychwyd yr ardal pan glywsom am farwolaeth Mrs Marie Oulton, Bryn Eithin a hithau ddim ond yn 39 mlwydd oed. Cydymdeimlwn yn fawr â'i phriod, Bradley a'r bechgyn, Tony, Robert a Nigel.

Cydymdeimlwn hefyd â theulu'r diweddar Mr Turnbull, Ancrum gynt, a theulu'r ddiweddar Miss L. Jones, Craig y Dinas. Fe golodd Mr Gareth Williams, Carrog ei ewythr oedd yn byw ar Ynys Môn a Mrs O. Pritchard, 10 Llys y Gwynt ei chyfnither hefyd o Fôn. Cydymdeimlwn â theulu Meillionydd sydd wedi colli perthynas agos.

LLONGYFARCHIADAU i holl blant y pentref sydd wedi llwyddo yn eu harholiadau yn yr ysgol ac yn y coleg. Pob llwyddiant iddynt yn eu gyrfaedd newydd.

CLWB YR HEULWEN – Bu cyfarfod pnawn ddydd Mawrth, Medi 21 a chafwyd sgwrs gan Mr T.J. Jones o'r Cyngor Gwlad. Rhoddwyd y te gan Mrs R. Thomas, Bod Awen a Mrs A. Williams, Meillionydd ac enillwyd y raffl gan Mrs M. Davies. Diolchodd Mrs K. Williams i bawb.

YSGOL TAN Y COED

Taith Gerdded yr Urdd – Ymunodd 5 o'r plant hynaf, sef Sioned Roberts, Eurgain Haf, Sioned Williams, Naethan Eagles a Dylan Pierce Williams â thaith gerdded a drefnwyd gan Bwyllgor Gwynedd o'r Urdd. Cerddwyd o Gastell Gwydir trwy ardal Llanrhydwyn ac i lawr i Drefriw.

Nofio – Mae amryw o'r plant wedi dechrau ennill bathodynau o wahanol raddau am eu gallu i nofio, fel canlyniad i'r gwersi wythnosol a gânt yng Nghanolfan Hamdden Arfon. Gobeithir y byddant oll yn meistrolï'r grefft.

GAIR O RYBUDD I J.N.E....D

Glywsoch chwi, gyfeillion hoffus, Am yr hen arferiad gwarthus? Llygru'r bos, a phrynu mantais Efo bagiad o dymatos!

Gwyddom oll, bob hen chwarelwr, Am ambell fradwr a chynffonnwr, Ond fe dybiwyd ers go hir Mai darfod oeddynt yn y tir.

Och a gwae! nid felly bu. Draw yn iard y Gilfach Ddu Ymdrech deg a wnaed gan yntau I gael mantais ar y fintai.

Cofia John, os wyt yn gwrando, Wnei di BYTH efo pump tymato. Cofiwch bawb sy a thŷ gwydr Gwylwch hwn, mae ar ei grwydr!

Blac.

CLWB ERYRI

Cynhelir cyfarfod cyntaf y Clwb nos Wener 1 Hydref yng ngwesty Gwynedd am 7.30 pm. Y siaradwr fydd Mr Emllyn Davies, y Waunfawr, llywydd y Clwb am y tymor, gyda Mr Stanley Owen, yn is-lywydd. Swyddogion eraill y Clwb yw: Trysorydd – Mr Ieuan Ellis Jones; Bardd – Mr Llion Jones; Ysgrifennydd – Mr Rol Williams. Trefnwyd rhaglen ddiddorol dros ben.

CEFNOGWCH EIN HYSBYSEBWYR

O ERYRI I'R MYNYDD BACH ...



Carreg fedd y diweddar B.T. Hopkins, y bardd enwog o Geredigion, gydag englyn Tony Elliot, golygydd newyddion yr Eco er cof am y bardd arni. Twyrach i chi gofio darllen yn un o rifynnau diweddar yr Eco i weddw Mr Hopkins weld copi o'r englyn yn 'Barddas', cylchgrawn y Gymdeithas Gerdd Dafod, a chysylltu â Tony i gael ei ganiatâd i'w defnyddio. Rydym yn ddiolchgar iawn i Mrs J. Hopkins am ganiatáu i ni gynnwys y llun yn yr Eco.

CWM-Y-GLO

PERERINDOD – Ddydd Sadwrn, Medi 18 gyda'r Parch Huw John Hughes, B.D. yn arwain, aeth nifer dda o aelodau a chyfeillion o Eglwys Annibynwyr cylch Cwm-y-glo ar bererindod i benrhyn Llŷn.

Ymwelwyd ag Eglwys Beuno Sant yng Nghlynnog Fawr, lle'r oedd yr offeiriad yn disgwyl amdanom, a rhoddodd sgwrs ddiddorol iawn ar hanes yr hen eglwys a'i chysylltiad â'r pererinion cynnar ar eu ffordd tuag Ynys Enlli. Yn y fynwent gwelwyd bedd Eben Fardd yr athro a'r mathemategydd; ac awdur 'Dinistr Jerusalem'. Yna, aethom dros Lithfaen gan alw wedyn i weld hen eglwys Pistyll a thabled i goffau Parch Tom Nefyn Williams tu allan i fur y capel yn y pentref.

Trwy Nefyn, Morfa Nefyn, Edern a Thudweiliog roedd ein siwrnai nesaf, a chyrraedd Llangwnadl ac ymweld â'r hen eglwys lle cafwyd gwasanaeth byr, cydadrodd Salm a chanu emyn, o dan arweiniad Mr John Williams, Deiniolen.

Ymlaen wedyn am Aberdaron ac ymweld ag Eglwys Sant Hywyn a gwasanaeth byr yno hefyd.

Oherwydd y niwl trwchus ar brydiau penderfynwyd peidïo ag ymweld â Ffynnon Fair yn Uwchmynydd a chychwyn tuag adref trwy Ddyffryn Nanhoron a chael aros am orig fer ym Mhwlheli i gael lluniaeth.

Tystiodd pawb i'r bererindod fod yn llwyddiannus a bendithiol, ac edrychir ymlaen am bererindod cyffelyb y flwyddyn nesaf.

Ddydd Sul, ymunodd yr eglwys eto yn Neiniolen lle cafwyd gwasanaeth o dan arweiniad Mr Gwyn Parry, B.A. yn y bore a phregeth yn yr hwyr gan weinidog yr eglwys.

UNDEB Y MAMAU – Gweinyddwyd y Cymun Bendigaid yn Eglwys Sant Gabriel gan y Rheithor, y Parch Aled Jones-Williams nos Fawrth, Medi 13 i aildddechrau cyfarfodydd Undeb y Mamau am dymor y gaeaf. Ar ôl y gwasanaeth fe gafwyd lluniaeth ysgafn yn y Ganolfan. Croesawodd Mrs Watkins y Rheithor i gangen Undeb y Mamau Cwm-y-glo. Yr oedd rhai materion i'w trafod ac yna fe drefnwyd rhaglen am y tymor. Mrs Hilda Orritt, oedd yn gyfrifol am y lluniaeth a diolchwyd iddi gan Mrs Gwyneth Roberts. Terfynwyd y cyfarfod drwy adrodd y gras.

CAWL A CHÂN – Cynhelir noson o Gawl a Chân am 7 o'r gloch nos Fawrth, Hydref 12 yn y Neuadd, y canu dan ofal Edward Morus Jones a'r cawl dan ofal Merched y Wawr. Yr

elw at gynnal y Neuadd. Mynediad 50c i oedolion, 30c i blant a phensiynwyr. Cynhelir raffl.

Gobeithio y daw cymaint yno ac y bydd cystal hwyl ag a fu y llynedd.

PONT PENLLYN – Yr wythnos ddiwetha' gwelwyd rhybudd ar y bont yn dweud y gwneir cais i'w chau i drafnidiaeth, o flaen y Llys Ynadon ddiwedd mis Hydref. Felly, os na fydd gwrthwynebiad efallai mai cau fydd ei hanes wedi'r cwbl.

MERCHED Y WAWR – Nos Fercher, Medi 15 cafwyd y cyfarfod agoriadol dan lywyddiaeth Mrs Hannah Jones. Mrs Marjorie Roberts yw'r ysgrifennydd eleni gyda Mrs Iris Rowlands yn rhannu'r gwaith.

Cafwyd sgwrs ddiddorol iawn ar Sychu Blodau gan Mrs Gweneirys Jones a dangosodd enghreifftiau o'i gwaith yn defnyddio'r blodau mewn potiau, mewn ffrâm bictiwr ac i addurno cardiau. Diolchwyd iddi gan Miss Mat Pritchard.

Mrs Iris Rowlands roddodd y te a gwobr y raffl a enillwyd gan Miss Pritchard. Trefnwyd rhaglen amrywiol am y gaeaf a bydd croeso i aelodau newydd.

TAITH GERDDED – Brynhawn Sadwrn, Awst 28 trefnwyd Taith Gerdded at Gronfa Eglwys St. Gabriel. Yn ystod y daith gerdded fe gynhaliwyd 'Te Bach', stondinau a raffl yn y Ganolfan. Fe enillwyd y raffl gan Mrs N. Close, Deiniolen (Bocs nwyddau); Mrs L. Humphreys, Pontrhyallt (Clustog frodwaith); Tony, Bod Gwynedd (Darpariaeth cosmetig a sgarff).

Gwnaed elw o £400 tuag at Gronfa'r Eglwys. Dymuna'r trefnwyr ddiolch i bawb am eu cymorth a'u cefnogaeth.

CLWB POBOL Y CWM – Cyfarfu aelodau'r Clwb yn y Ganolfan ddydd lau diwethaf i gychwyn tymor newydd y gaeaf. Gwnaed trefniadau ar gyfer y cyfarfodydd sydd yn dilyn, ac etholwyd y cyn-swyddogion i weithredu am dymor arall, sef Llywydd, Mr Llew Hughes, Hyfrydle; ysgrifenyddes, Mr H.M. Roberts, Bryn Gro; trysorydd, Miss E. Hughes, Tan y Graig. Cydymdeimlwyd â theulu'r llywydd ar eu profedigaeth ddiweddar a llongyfarchwyd Mrs Williams, 7 New Street ar gyraedd ei 90 oed.

Enillwyd y raffl gan Mrs Peris Roberts, Penrallt. Darparwyd y te gan Miss E. Davies, Noddfa a Mrs E. Jones, Seiont House. Os dymuna unrhyw bensiynwyr ymuno â'r Clwb mae croeso iddynt.

GWILYM JONES Monumental Works LLANRUG

FFÔN CAERNARFON 2898

COFADEILWAITH O BOB MATH
MEWN LLECHI A GWENITHFAEN
GAN GREFTWYR LLEOL

ERIC MORRIS

Rhan o deyrnged y Parch Aled Jones-Williams, Rheithor Llanrug, yn y gwasanaeth angladdol.

A gaf i ar fy rhan fy hun ac ar eich rhan chwithau estyn ein cydymdeimlad llwyr a diffuant â Mrs Morris a'r ddwy ferch a'r teulu i gyd ar golli un a oedd yn annwyl iawn iddynt hwy.

Y tro cyntaf i mi weld Mr Morris erioed – er clywed yr enw ynghynt – ydoedd ychydig ddiwrnodau wedi i mi gyrraedd y plwy, rhyw ddeufis yn ôl erbyn hyn. O flaen y Rheithordy roeddwn i a dyma yntau'n dod allan o'i gar a dweud:

"Fi ydi Eric Morris a chofiwch os byddwch chi isio mynd i rywle, dim ond gadael i mi wybod."

Yn y cyfarfyddiad cyntaf yma fe ddaeth i'r amlwg ddwy nodwedd hanfodol, waelodol yng nghymeriad Eric Morris. Yn gyntaf, ei bersonoliaeth lachar a hawddgar. Wedyn, yn ail, ei gymwynasgarwch di-ben-draw.

Dyn fel yna oedd Eric Morris, ynte? Dyn hael, hefo calon fawr yn curo tu mewn i gymeriad solat a chadarn. Roedd yna waelod llydan yn y dyn.

Carai ei fro – ei hanes a'i thraddodiadau. Pleser oedd gwrandio arno fo'n sôn am Ddafydd Ddu Eryri. Dywedodd wrthyf fi bopeth sydd yna i'w ddweud am yr Eglwys rwy'n siŵr. Oedd, roedd o'n caru'r fro. Ond roedd o'n caru pobl y fro'n fwy. Rydych chi i gyd fel minnau yn dystion o haelioni Eric Morris. Fe wyddai i'r dim beth oedd ystyr y gair "brawdgarwch".

Ond y mae yna un peth mwy i'w ddweud amdano. Dyn Duw oedd Mr Morris. Nid diddordeb hanesydd yn yr Eglwys oedd ganddo. Yn hytrach, yr hyn oedd eiddo iddo ydoedd ymrwymiad disgybl – disgybl i'r

Arglwydd Iesu Grist. Ac yn y fan honno y gorwedd cyfrinach ei frawdgarwch. Brawdgarwch wedi ei seilio ar Dadolaeth Duw oedd hi.

A'n braint ni ydi cael cyflwyno enaid yr unigolyn mwy a thawel yma i ddwylo'r Duw grasol – yr Un sy'n caru dyn nid dros amser yn unig ond yn dragwyddol – ei gyflwyno fo i lawnder bywyd yng Nghrist; i'r "afael sicraf fry."

Bydd, fe fydd yna hiraeth ac ymdeimlad o chwithdod. Ond cofier hyn:

"Eithr yn y pethau hyn oll yr ydym ni yn fwy na choncwerywyr trwy yr Hwn a'n carodd ni."

Paul biau'r geiriau hyn. Nid sôn am Grist marw roedd o. Ond gwirioni a llawenhau hefo'r Iesu Byw. Ac "am fod fy Iesu'n fyw, byw hefyd fydd ei saint."

Aled Jones-Williams
(Rheithor Llanrug)

DIOLCHIADAU

Dymuna Mrs Nancy Morris, Eirian a Rhiannon a theulu'r diweddar Mr Eric Morris, Awelfryn, Tan-y-coed, Llanrug ddiolch i'r teulu oll, i gyfeillion a chymdogaion am y caredigrwydd a'r cydymdeimlad ddangoswyd iddynt yn eu profedigaeth sydyn.

Diolch hefyd am y llythyrau a'r cardiau niferus dderbyniasant.

Diolch diffuant i'r meddygon teulu, y Parchn Aled Jones-Williams, D. Gwynfor Williams a W.O. Roberts, ac i Mr Myrddin Pritchard, Llanberis.

Gwerthfawrogir yn ddiolchgar hefyd y rhoddion dderbyniwyd tuat at Cronfa Offer Adfywio.

Liverpool House, Waunfawr.

SUL DIFYR GYDA SULYN

Hydref 17 yw'r diwrnod y bydd SULYN yn cyrraedd eich carreg drws. Y mae'r cwmni sydd yn cyhoeddi'r papur wedi rhoi darlun o sut bapur fydd SULYN. Iaith syml a geir yn y papur, ac nid oes angen prynu geiriadur i'w ddarllen. Yn SULYN ceir brawddegau byr gyda geiriau hawdd eu deall.

Y mae un-ar-dddeg wedi eu hapwyntio i swyddi llawn amser i wneud y gwaith. Mi fydd SULYN yn creu mwy o swyddi rhan amser. Y mae'r gweithwyr i gyd o Wynedd. Yn eu mysg mae newyddiadurwyr profiadol, trefnwyr gwerthiant a gwerthwyr hysbysebion. Maent i gyd yn weithwyr caled a chyfrifol. Yn barod maent wrthi yn paratoui ar gyfer SULYN.

Fel gyda phob papur, mae i SULYN gyfranwyr gwadd. Yn barod mae dau o'r enwau wedi eu datgelu, sef Carwyn James ac Eric Jones. Nid oes neb yn gwybod mwy am rygbi na Carwyn James. Yn awr cewch ddarllen ei amrywiol syniadau yn SULYN. Pwy mae Carwyn am ei weld yn nhim Cymru? Drwy ddarllen SULYN fe gewch yr ateb. A phwy'n well nag Eric Jones i sgwennu am ddringo. Ceir digon o hanesion difyr gan y gŵr a ddringodd

yr Eigr ar ei ben ei hun.

Bydd adran chwaraeon helaeth i'r papur. Ceir canlyniadau a straeon am gemau clybiau fel Everton, Wrecsam, Man. Utd., Abertawe a Lerpwl. Ar ben hynny bydd gemau Gwynedd yn cael sylw manwl. Ceir adroddiadau cyson ar amryw o wahanol chwaraeon. Bellach mae cryn nifer o glybiau rygbi yng Ngwynedd a rhoddir lle amlwg i'r rhain. Hefyd cewch bytiau am ddartiau, snwcer, hoci, golff a rasio ceffylau. Am newyddion diweddaraf y byd chwaraeon, SULYN fydd y papur i'w brynu.

O Hydref 17 ymlaen bydd yn bosib darllen am ddigwyddiadau dros y Sul yn Gymraeg. Bydd hanesion o Wynedd, Cymru a'r byd. Y mae'r papur eisoes wedi creu gwaith. O lwyddo fe all greu mwy o swyddi. Papur newydd ffres a diddorol fydd SULYN. Gwnewch yn siŵr o gael SUL DIFYR drwy fynd ati i archebu SULYN.

CEFNOGWCH
EIN
HYSBYSEBWYR

YSGOLION UNDYDD I AELODAU CAPELI, EGLWYSI ac YSGOLION SUL – Medi-Hydref 1982

Bydd dau ddosbarth yn cydreddeg:

(1) I athrawon a Disgyblion Dosbarthiadau Oedolion yr Ysgol Sul: Rhagarweiniad i Faes Llafur yr Oedolion ar waith Cenhadol. Darlithydd: Y Parch John Tudor, M.A., Treffynnon. (Bydd Esboniad y Parch Ieuan Jones yn cael ei gyhoeddi o dan y teitl 'Y Gair ar Gerdded' gan Lyfrfa'r M.C., Caernarfon)

(2) I Weinidogion, Arweinwyr Eglwysig, Athrawon Ysgol Sul, a phawb sydd a diddordeb: Cefndir storïau y Beibl a'i berthnasedd i wersi'r plant. Darlithydd: Y Parch Byron Howells, B.A., B.D., Bryngwran.

Estynnir croeso i bawb sydd a diddordeb mewn addysg o fewn yr Eglwys i ddod i unrhyw un o'r cyrsiau canlynol. Bydd pob cwrs yn dechrau am 7.00 o'r gloch ac yn gorffen am 9.00 o'r gloch. Tâl aelodaeth i bob cwrs : 50c.

Caernarfon – Capel Ebeneser – Nos Fercher Hydref 6.

Disgwyli'r llysoedd enwadol gefnogi'r cyrsiau drwy fod yn gyfrifol am y trefniadau gweinyddol ac ariannol lleol. Cysyllter â: Rheinallt A. Thomas, Trefnydd, Canolfan Genedlaethol Addysg Grefyddol, Coleg Prifysgol Gogledd Cymru, Bangor. Ffôn (0248) 51151, Est. 6109.

Bistro 45 Stryd Fawr LLANBERIS

Ffôn: LLANBERIS 871 278

(Danny a Nerys Roberts)

Pryd gorau'r fro

LLEUFER O. ac N. PRITCHARD CANOLFAN CARPEDI WAUNFAWR



Ffôn 291

(yn ystod oriau agor)

GWLÂU SENGL O £39 I FYNY
GWLÂU DWBL O £75 I FYNY
DEWIS EANG O '3 PIECE SUITES'
O £200 i £800

LLENNI 'VENETIAN' A LLENNI 'ROLER'

5000 LLATHEN SGWÂR O GARPEDI MEWN STOC
– ALLWCH CHI Fforddio prynu o batrymau?

AR AGOR
9-7pm
9-5pm
AR GAU
SUL,
MERCHER.

AM DRIP CYFFYRDDUS, DIOGEL A RHAD
I BLE BYNNAG Y BO . . .



BWSIAU ARFON
LLANRUG
(ERIC MORRIS)

Ffôn: Caernarfon 5175
neu Bangor 51981

SIBRYDION O'R YSGOLION

Ysgol Brynrefail

MWYNHAU'R EIDAL

Yn ystod gwyliau'r haf aeth Mrs Deliah Parry Hughes a deuddeg o blant yr ysgol am drip i'r Eidal. Ar ôl hedfan o Gatwick i Venice yr oeddynt yn aros yn nhref glan môr Lido de Jesolo. Buont yn ymweld â Venice, y Venetian Villas, Padua, Eglwys fawr St. Antonio, yn ogystal â threulio bore ym marchnad adnabyddus St. Marco. Tra yn Jesolo hefyd cawsant fwynhau dathlu buddugoliaeth yr Eidal yng Nghwpan y Byd.

CRONFA OXFAM

Ar ddiwedd tymor yr haf anfonwyd siec o £580 i Gronfa Oxfam, sef casgliad y 60 o blant a fu'n cerdded ar daith nodedig Oxfam drwy Goedwig Gwydyr yn niwedd mis Mai. Llauer o ddiolch i bawb a fu'n noddi'r plant ac i Mrs Plemming am drefnu'r daith.

LLWYDDIANT MANON

Yn ystod yr haf bu lluniau nifer o ddisgyblion yr ysgol mewn arddangosfa yn Oriel Eryri, Llanberis. Arddangosfa ydoedd o luniau gorau y gystadleuaeth arlunio i ysgolion Cymru i goffáu marwolaeth Llywelyn ein Llyw Olaf. Yn nes ymlaen yn y flwyddyn bydd yr arddangosfa yn mynd o gwmpas rhannau eraill o'r wlad. Roedd y canlynol yn fuddugol ac mae eu lluniau yn cael eu harddangos:

O dan 15: Cyntaf, Manon Evans, 3ydd John Tudur Parry.

Mae lluniau'r rhai canlynol yn cael eu harddangos hefyd: John Tudur Parry (2 ddarlun), Robert Christopher Jones (2 ddarlun), Dylan Wyn Jones, Harri Rheinallt Parry a Rhian Davies.

Cyflwynwyd y gwobrau gan yr Athro Alun Llywelyn-Williams.

Hefyd yng nghystadleuaeth y 'Junior Health Poster Competition' rhoddwyd tystysgrifau i'r rhai canlynol am eu gwaith: Manon Evans, Bethan Powell, Vaughan Llewelyn Hughes a Patrick Crew.

ATHRAWON NEWYDD

Ar ddechrau tymor ysgol newydd croesawn dair aelod newydd llawn amser i blith yr athrawon, sef Mrs Mair Griffiths (Gwnio), Miss Pricilla Williams (Hanes) a Mrs Ann Edwards (Ffrangeg). Pob hwyl iddynt yn eu swyddi newydd a gobeithio y byddant yn ymgartrefu'n fuan.

PRIF DDISGYBLION 82-83

Fel arfer ar ddechrau blwyddyn newydd estynnwn ein llongyfarchion i'r pedwar a ddewiswyd yn brif ddisgyblion, sef Rhian Owen (Prif Eneth), Ian P. Williams (Prif Fachgen) a Keith Jones (Dirprwy Brif Fachgen).

DRAMA FUDDUGOL

Eleni eto rydym yn falch iawn o gael llongyfarch Mrs Mari Williams M.A., ein hathrawes yn y Clasuron, ar ei llwyddiant yn Eisteddfod Genedlaethol Abertawe. Daeth Mrs Williams yn gyd-fuddugol am ysgrifennu Drama Fer ar gyfer merched. Dywedodd y beirniad, Miss Mati Rees, ei bod yn ddrama ddiddorol a sylweddol ac y dylai apelio at gynulleidfa. Hefyd mae'n werth sylwi bod rhan o'r wobwr yn Wobr Goffa Mr W Vaughan Jones, B.Sc. y Waunfawr, cyn-athro yn Ysgol Brynrefail.

RHIAN AR Y BRIG ETO

Llongyfarchiadau hefyd i Rhian Owen ar ddod yn fuddugol yn yr unawd merched 15-19 yn Eisteddfod Genedlaethol Abertawe eleni. Enillodd Rhian hefyd yn Eisteddfod yr Urdd ym Mhwlheli eleni. Da iawn,

Rhian!

ADRAN YR URDD

Ar Sadwrn braf iawn, sef Medi 18, aeth 20 o aelodau'r Adran ar daith gerdded a drefnwyd gan yr Urdd. Cerddwyd dros 8 milltir, o Gapel Curig dros y mynydd i Drefriw a chael cawl a diod yno yng nghwmpeini nifer fawr o gerddwyr eraill. Llwyddodd 4 o'r staff, Mr Gomer Davies, Mr Rhys Parri a Mr a Mrs Alwyn Plemming hefyd i orffen y daith.

Nos Fercher, 13 Hydref bwriedir cynnal Noson Goffi ac Adloniant i godi pres tuag at Adran yr Urdd yn yr ysgol.

TAITH ANTURUS

Yn ystod yr haf aeth Mr Thomas y Prifathro, Mrs Wroe a Mrs Manning, ynghyd â chwech o blant yr ysgol ar daith o gwmpas 'Mont Blanc'. Roeddynt yn teithio o gwmpas nifer o fynyddoedd eraill hefyd - Verte, Chardonnay, Gouter, Geant, Jorasses d'Argentine, Dolent ac eraill. Roedd y daith yn croesi saith o ddyffrynnoedd ac yn golygu tua 140 o filltiroedd o ddringo parhaus i fyny ac i lawr. Y chwech a aeth oedd Toby Manning, Tracey Riley, Mathew Anthoine, Timothy Lloyd, Anna Wood a Gwynfor Williams.

PENCAMPWRIAETHAU ATHLETAU YSGOLION CYMRU YNG NGHOLEG KELSTERTON

Bu Michael Coombes o Benisarwaun a Michael Roberts o Gwm-y-glo a Mathew Anthoine o Lanberis yn cynrychioli Ysgolion Gwynedd yn y cyfarfod hwn ddiwedd tymor yr haf. Daeth Michael Roberts yn 3ydd yn y gystadleuaeth taflu'r pwysau i fechgyn dan 15 oed, a daeth Michael Coombes yn 6ed yn y ras glwydi i fechgyn yn yr un oedran. Yn y gystadleuaeth taflu'r ddisgen i fechgyn dan 17 oed daeth Mathew yn 7ed.

PÊL-DROED YN ERBYN YSGOL DYFFRYN NANTLLE YM MHEN-Y-GROES

Bechgyn dan 13 - colli 8-2. Bechgyn dan 15 - colli 4-3. Bechgyn Hŷn - colli 3-2.

Mae Kevin Jones o Ddinorwig wedi ei ddewis i chwarae i dîm pêl-droed Ysgolion Gwynedd o dan 15. Fe chwaraeir y gêm gyntaf yn erbyn Ysgolion Clwyd ar Fedi 27.

YMDDEOLIAD YR ARCHESGOB

Yn yr Offeren Esgobaethol ar achlysur ymddeoliad Archesgob Cymru, y Parchedicaif G.O. Williams M.A. D.D., yn Eglwys Gadeiriol Bangor athaw Sadwrn Medi 11 bu Mrs Wroe, athrawes Ymarfer Corff yr Ysgol yn gyfrifol am ddyfeisio a chynhyrchu Dawns Litwgaidd wedi ei seilio ar fywyd Sant Deiniol. Y genethod o'r ysgol a gymerodd ran oedd - Gwyneth Evans, Sian Rhiannon Jones, Brigid Hughes, Jaqueline Hobby, Angela Lloyd a Cathryn Roberts.

Testun balchder yw fod yr Ysgol wedi medru cyfrannu i wasanaeth ymddeoliad cyn-ddisgybl a brodor o'r ardal. Magwyd y Parchedicaif G.O. Williams ym Mhenisarwaun, bu'n ddisgybl yn hen Ysgol Ramadeg Brynrefail ac aeth oddi yno i Goleg Iesu Rhydychen lle cafodd yrfa academaidd eithriadol ddisglair. Ein diolch felly i Mrs Wroe a'r genethod am anrhyddeddu'r Archesgob ar ein rhan.

MR DANIEL LEWIS

Wedi blynyddoedd o dorri gwair a thwtio o gwmpas yr Ysgol yn rhan amser o Ebrill hyd yr haf, fe fu'n rhaid i Mr Lewis ymddeol eleni. Gwnâi ei

waith yn hynod drylwyr - yn wir yr oedd ei lafur yn ymestyn lawer hwy na'r oriau a ganiatwyd iddo gan y Pwyllgor Addysg - ac yr oedd bod amser yn siriol a bonheddig. Dymunwn fel Ysgol ddiolch i Mr Lewis am ei lafur ymroddedig ar hyd y blynyddoedd a dymuno ymddeoliad hapus iddo yn y dyfodol.

MR ERIC MORRIS

Ar ran athrawon a disgyblion (a chyn-ddisgyblion) yr ysgol dymunaf

estyn ein cydymdeimlad cywiraf â theulu Mr Eric Morris a fu farw yn ddiweddar. Bu'n gyfaill dilyys i'r ysgol am gyfnod maith a rydym yn ddyledus iddo am lawer cymwynas. Yr oedd bob amser yn siriol a rhadlon ac ar y mynych adegau y buom yn cyd-drefnu teithiau ysgol yr oedd yn bleser i mi yn bersonol i gydweithio ag ef.

W.E. Thomas
Prifathro

BETHEL

YR URDD - Cynhaliwyd pwyllgor o'r Urdd nos Fawrth Medi 7. Y pwyllgor eleni yw: Llywydd, Mr Geraint Elis; Is-lywydd, Mrs Llinos Owen; Trysorydd, Mr Dafydd Williams; Ysgrifenyddes, Mrs Fanny Owen. Aelodau'r pwyllgor yw Mrs Ann Hopcyn Evans, Mrs Rita Dauncey Williams, Mrs Gwyneth Jones, Mrs Eirlys Hughes, Mrs Betty Owen, Miss Myfanwy Jones. Mae'r Urdd yn cyfarfod yn y Neuadd nos Wener Hydref 1 i ymaelodi, 70c yw'r tâl aelodaeth am eleni. Mae croeso i'r plant oedd yn 7 oed cyn Awst 1982.

Nos Wener Hydref 8 ceir cystadleuaeth Arlunio ar gyfer yr Eisteddfod a nos Wener Hydref 15 ceir cystadleuaeth llenyddiaeth.

Ni fydd cyfarfod Hydref 22 oherwydd gwyliau'r Diolchgarwch. Rhagysbysiad - Ffair Nadolig yr Urdd - Rhagfyr 10 yn y Neuadd.

YR YSGOL FEITHRIN - Mae'r ysgol wedi agor ei drysau i ddechrau tymor newydd gyda'u hathrawes, Mrs Lynwen Morris 'Perthi' a Mrs Eirlys Sharpe yn cynorthwyo. Mae 11 o blant ar lyfrau'r ysgol ac mae amryw fydd yn dechrau ar ôl y Nadolig wedi rhoi eu henwau i mewn yn barod.

MERCHED Y WAWR - Dechreuodd tymor newydd y mudiad yn yr ysgol Medi 8, gyda'r llywydd newydd, Mrs Rita Williams yn arwain y noson. Cafwyd noson lwyddiannus iawn yng nghwmni criw talentog iawn o bobl a phlant ifanc iawn dan arweiniad Mr Ifan John Jones o ardal Mynytho. Diolchwyd iddynt ar ran y gangen gan Mrs Mair Price. Paratowyd swper i'r diddanwyr gan y pwyllgor. Enillwyd y raffl gan Mrs S. Hughes Bro Rhos.

Medi 1, aeth 15 o aelodau o'r gangen ar daith gerdded nodedig o Fethel at Bensarn, trosodd i Ddinas Dinorwig, at Gors Bach ac yn ôl i Fethel. Mae diolch y merched yn fawr i'r ysgrifenyddes, Mrs Gwyneth Williams am baratoi paned o de yn ei chartref. Fel canlyniad i'r noson casglwyd dros £60 i goffrau'r gangen.

DAWSWYR MORRIS - Daeth blwyddyn lwyddiannus iawn y ddau grŵp i ben Medi 10, pan aeth y genethod a llawer o'r mamau i'r Ganolfan Chwaraeon yng Nghaernarfon i nofio, cael pryd o fwyd, ac yna i'r neuadd chwaraeon am gemau. Rhoddwyd medalau i'r plant, eu gwobr am ennill mewn gwahanol gystadlaethau yn ystod yr haf. Rhoddodd Lliwen, Jill, Eirlys a Ceri anrhegion ar ran y genethod i Mrs Nan Owen, yr hyfforddwraig; Mrs Gwenda Jones, cynorthwy-ydd; Mrs Sheila Roberts am wneud y dillad a Mrs Val Roberts y trysorydd. Roedd y plant a'u mamau am ddangos eu gwerthfawrogiad am waith caled iawn Mrs Nan Owen a'r pwyllgor drwy'r flwyddyn.

YMARFERIADAU - Bydd yr Eisteddfod ymhen mis o amser ac mae'r ymarferiadau wedi dechrau'n barod. Mae'r plant yn eu partïon canu ac adrodd wrthi'n brysur yn ymarfer. Mae Mrs Rita Williams a Mrs Ann H. Evans yn codi partïon merched i gystadlu. Os oes diddordeb gennych

mae parti gwaelod yn ymarfer yn festri Capel Bethel am 8 o'r gloch ar nos Lun. Croeso cynnes iawn i unrhyw un â diddordeb i ymuno. Os ydych yn byw o gwmpas y Post bydd Mrs Ann Hopcyn Evans yn falch o glywed gennych os ydych am ymuno â'r côr arall.

LLONGYFARCHIADAU i Helen Owen, Bron Meillion sy'n 18 mlwydd oed Medi 29. Hefyd Colin W. Roberts, 19 Stad Eryri oedd yn 18 oed Awst 25.

CYDYMDEIMLO - Ddydd Gwener Medi 11 yn 87 oed yn Ysbyty Bryn Seiont bu farw Mrs Margaret Parry, Bodlondeb. Cafodd Mrs Parry waeledd hir a threuliodd fisoedd mewn gwahanol ysbytai yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Estynnwn ein cydymdeimlad â'r teulu yn eu profedigaeth.

DYMUNIADAU DA - Cyfnod o ddechrau newydd yw diwedd yr haf, plant yn symud o ysgol i ysgol neu o ysgol i goleg, eraill yn dechrau yn eu gwaith cyntaf ac eraill yn symud i waith newydd. Dymunwn y gorau i holl blant yr ardal sydd yn dechrau pennod newydd yn eu hanes ar hyn o bryd.

SEFYDLIAD Y MERCHED - Daeth aelodau'r Sefydliad ynghyd nos lau, Medi 16 am y tro cyntaf ar ôl gwyliau'r haf, pryd y croesawodd y llywydd Mrs Dorothy Jones o Gwm-y-glo a ddaeth i sôn am waith Dr Barnado ynghyd â ffilm o'i gwaith. Croesawwyd Miss Katie Morris a Mrs Mary L. Hughes o Benrhos yn ôl ar ôl bod yn yr ysbyty. Diolchwyd i Mrs Jones gan Mrs Joyce Jones, Llanrug. Y gwestwagedd oedd Mrs Edith Humphreys o'r Felinheli, a Mrs Mary Williams, Cilgwyn. Diolchwyd iddynt gan Mrs Betty Hughes, Llanrug. Enillwyd y raffl gan Mrs Mary L. Hughes.

NOSON GOFFI - Cynhaliwyd noson goffi yn y Neuadd nos Wener Medi 24, pryd y daeth nifer dda ynghyd a phawb yn barod i helpu a chyfrannu. Enillwyd y raffl gan: Mrs Pierce Cae Sidi, bocs o siocled; Mrs Eirlys Sharpe Is ellen, tun o fisgedi; Miss Gail Williams, Tŷ'r Ysgol, cyw iâr; Mr Sammie Jones, Cefn, botel o sheri.

PLAID CYMRU - Nos Fercher, Medi 15, daeth nifer dda o aelodau ynghyd i'r neuadd i gynnal cyfarfod cyntaf y tymor. Cafwyd trafodaeth fywiog dan arweiniad O.P. Huws, Llanllyfni ar weithgaredd cangen pentref. Llywyddwyd y noson gan Mrs Llinos Owen a pharatowyd paned gan aelodau'r pwyllgor. Dylai amryw o gyfarfodydd difyr ddeillio o'r noson gyntaf hon, a bydd croeso cynnes i aelodau a chefnogwyr hen a newydd.

GALW GARI WILLIAMS!

Bydd Gari Williams yn recordio cyfres deledu ar gyfer S4C yn

THEATR SEILO, CAERNARFON
Hydref 25, 26, 27 am 7.30pm

Tocynnau AM DDIM oddi wrth Cwmni'r Castell Cyf., 1 Ffordd Rhiw, Bae Colwyn. Ffôn (0492) 33148

DYDDIADUR HYDREF

1, Gwener LLANBERIS – Te yr Henoed.
YR ARDAL – Clwb Eryri yng Ngwesty'r Gwynedd am 7.30
BETHEL – Cangen yr Urdd.
WAUNFAWR – Dosbarth nos Cym. Add. y Gweith. "Gwerthfawrogi Celfyddyd" yn yr Ysgol Gynradd am 7.00.
DEINIOLLEN – Noson Goffi yn Ysgol Gwaun Gynfi am 7.00. Yr elw er budd Eisteddfod Gwaun Gynfi.
2, Sadwrn WAUNFAWR – Taith Gerdded Cangen yr Urdd.
4, Llun DEINIOLLEN – Sefydliad y Merched.
LLANBERIS – Dosbarth nos AyG "Gwerthfawrogi Celfyddyd" yn Ysgol Dolbadarn am 7.00.
LLANRUG – Dosbarth nos "Gwareiddiad y Celtiaid" yn yr Ysgol Gynradd am 7.00.
5, Mawrth DEINIOLLEN – Dosbarth nos "Byd Natur" yn Ysgol Gwaun Gynfi am 7.00.
LLANBERIS – Dosbarth nos "Dysgu Cymraeg" yn Ysgol Dolbadarn am 7.30.
7, Iau LLANBERIS – Cyngerdd gyda Elinor Bennet, Robert Wyn, Bontnewydd a Gwlith yng Nghapel Coch am 7.30.
WAUNFAWR – Clwb Gwryfai – Gŵr gwadd fydd Dr John Gwilym Jones. Sefydliad y Merched.
LLANRUG – Cymdeithas Chwiriwydd Capel Mawr am 7.00.
8, Gwener BETHEL – Cangen yr Urdd – Cystadleuaeth Arlunio ar gyfer yr Eisteddfod.
WAUNFAWR – Noson Goffi a stondinau dan nawdd Clwb y Mamau. Yr elw er budd Cronfa'r Ganolfan. Yn Neuadd yr Eglwys.
WAUNFAWR – Dosbarth Nos "Gwerthfawrogi Celfyddyd".
9, Sadwrn LLANRUG – Eisteddfod Gadeiriol.
10, Sul LLANBERIS – Cyfarfodydd y Dathlu yng Nghapel Jerusalem am 10.00, 2.00 ac 8.00.
11, Llun LLANBERIS – "Hanes yr Achos, 1832-1982" yng Nghapel Jerusalem am 7.00.
LLANBERIS – Gyrfa Chwist yn y Ganolfan am 7.30
LLANBERIS – Dosbarth nos. "Gwerthfawrogi Celfyddyd".
DEINIOLLEN – Merched y Wawr.
12, Mawrth LLANRUG – Merched y Wawr – "Straeon Ysbryd" gan Mr John Owen Huws.
DEINIOLLEN – Pwyllgor blynyddol Cangen Plaid Cymru yn Ystafell y Seindorf am 7.30.
DEINIOLLEN – Clwb Elidir.
DEINIOLLEN – Dosbarth nos "Byd Natur".
LLANBERIS – Dosbarth nos "Dysgu Cymraeg".
CWM Y GLO – Noson o Gawl a Chân dan nawdd Merched y Wawr yn y Neuadd am 7.00. Yr elw at gynnal y Neuadd.
13, Mercher YR ARDAL – Noson Goffi ac Adloniant gan aelodau'r Urdd yn Ysgol Brynrefail rhwng 6.30 ac 8.30.

14, Iau LLANRUG – Clwb Blodau'r Grug.
BRYNREFAIL – Clwb y Mamau.
16-25 Yr ysgolion ar gau dros Wyl Diolchgarwch.
15, Gwener LLANBERIS – Te yr Henoed.
BETHEL – Cangen yr Urdd – Cystadleuaeth Llenyddiaeth ar gyfer yr Eisteddfod.
WAUNFAWR – Dosbarth Nos "Gwerthfawrogi Celfyddyd".
19, Mawrth PENISARWAUN – Ffair Gynhaaf yn Neuadd yr Eglwys am 7.00.
25, Llun LLANBERIS – Gyrfa Chwist yn y Ganolfan am 7.30.
LLANBERIS – Dosbarth nos "Gwerthfawrogi Celfyddyd".
LLANRUG – Dosbarth nos "Gwareiddiad y Celtiaid".
26, Mawrth WAUNFAWR – Clwb y Bont yng Ngwesty'r Foelas, Llanrug am 8.00.
DEINIOLLEN – Clwb Elidir.
DEINIOLLEN – Dosbarth Nos. "Byd Natur".
LLANBERIS – Dosbarth Nos "Dysgu Cymraeg".
28, Iau WAUNFAWR – Noson Gymdeithasol dan nawdd Merched y Wawr yng Nghwmni Teulu Hendre Cennin, Garndolbenmaen yn Neuadd yr Eglwys am 7.30.
29, Gwener LLANBERIS – Te yr Henoed.
WAUNFAWR – Dosbarth nos "Gwerthfawrogi Celfyddyd".

DYDDIADAU I'W COFIO

Tachwedd 6 – Eisteddfod Bethel a'r Cylch.
Tachwedd 6 – Rali i goffáu Buddugoliaeth Llywelyn ap Gruffydd ym Mrwydr Moel y Don, yn y Felinheili am 2.00.
Rhagfyr 4 – Eisteddfod Gwaun Gynfi.

GWASANAETH NEWYDD

yng nghylch Eco'r Wyddfa

TRIN GWALLT YN
EICH CARTREF

Linda

MOBILE HAIRDRESSER

Lliwedd
Ffordd
Glanmoelyn
Llanrug

Ffoniwch

CAERNARFON 3674
am fwy o fanylion



CYSTADLEUAETH FAWR!!!

i gyd-fynd â'r llyfr rhamant diweddaraf yng Nghyffres y Fodrwy gan Gyhoeddiadau Mei

LLETY NOSON

Cyfle i ennill PENWYTHNOS i ffwrdd mewn GWESTY MOETHUS yn y wlad!!

Edrychwch yn PAIS mis Hydref am y manylion, neu cysylltwch â Swyddfa Pais, 40 Stryd y Wyddfa, Penygroes, Gwynedd. Ffôn Penygroes 302


J.M. JONES A'I FAB

GWAITH CERRIG BEDDAU

A THREFNWYR ANGLADDAU

DEINIOLLEN

Ffôn: LLANBERIS 872518 (Dydd)
Y FELINHELI 670124 (Nos)



CROESAIR HYDREF

AR DRAWS

- Y diwrnod sy'n dilyn yfory (7)
- Lle i addoli (6)
- Rhan o 7 (6)
- Anghrefyddol (8)
- Mae'n llifo yn ein anturiaethau (4)
- Dylsem eu cyfri, meddai'r saint, pan mae'n galed arnom (9)
- Mwd (4)
- Gwna i Nel droi, ond nid yw'n eglur (8)
- Sefydlu (6)
- "Canys ... ti y daw tywysog, yr hwn a fugeilia fy mhobld Israel" (Mathew, pennod 2) (6)
- Goruchwyllo (7)

I LAWR

- Pentref bach ffigurol ar fae Ceredigion! (7)
- Ynfydrwydd (7)
- Santes y cariadon (7)
- Yno fe lwyddais i ysgrifennu stori hir (5)
- Tybio (7)
- Dynion da (5)

- ... Ellis, y telynor (5)
 - Eli a dŵr o wlad dramor (7)
 - Plygu wrth blannu'r ardd? Sarhad! (7)
 - Llwglyd (7)
 - Ysgwyd yn chwyren (7)
 - Tynnu (5)
 - Sawr (5)
- Un llythyren yw CH, DD, FF, NG, LL, PH, RH, TH.

Atebion Croesair Medi

- Ar Draws** 1. Pysgoty 5. Cyllid 8. Brwyn 9. Oherwydd 10. Llygadrythu 12. Oer 13. Meilyr 14. Gorwel 16. Nef 17. Condemnio 20. Amddifad 21. Asbri 23. Selio 24. Nodedig
- I Lawr** 1. Pabell 2. Siw 3. Ofnadwy 4. Yfory 5. Credu 6. Llawforwyn 7. Diddorol 11. Gwirfoddol 13. Mantais 15. Ochenaid 17. Cofio 18. Nodyn 19. Oriog 22. Bod
- Enillydd: Bryn, 60 Dôl Elidir, Llanberis.
- Anfonwch eich cynigion i Twrog Jones, 23 Glanffynnon, Llanrug. Bydd gwobr o £2 i'r ateb cywir cyntaf i'w dynnu.

Wrth droed yr Wyddfa . . .



**BWYTY FFERM
BRON ERYRI
LLANBERIS** Ffôn 870391

Perchnogion: Mr a Mrs AW Hughes

CHWARAEON

TRIP I LERPWL gan Goronwy Owen

Sadwrn cyntaf ym mis Medi – diwrnod dechrau tymor pêl-droed, ac Arsenal yn chwarae Everton yn Goodison Park, dau dîm amlycaf Cynghrair y Bêl-droed. Arsenal oedd y tîm bryd hynny. Male a Hapgood yn chwarae cefnwyr, (y cyntaf yn ôl y stori, wedi'i ddysgu gan Johnny 'Rhelfa), Alex James, Drake a Milne, enwau oedd ar aelwydydd pob tîl lle roedd bechgyn ifanc, ac wrth gwrs, i Everton, un enw mawr, sef Dixie Dean.

Yn chweched dosbarth Brynrefail roeddwn i, a fy ffrind Griff Bevan yn gweithio yn y chwarel.

“Mae trip i Lerpwl ddydd Sadwrn, gad i ni fynd, i weld y gêm.”

“Mi hoffwn i ddod ond mae rhaid i mi ofyn i 'nhad a mam gynta.”

Mae'n rhaid ei bod yn Gyfri Mawr go dda, oherwydd cefais fendith ac arian i fynd. Bûm yn Lerpwl droeon o'r blaen i ymweld â'r teulu, ond dyma'r tro cyntaf imi gael mynd gyda ffrind.

Gwisgo'n barchus, a dal y trêrn yn 'Padarn Halt', mwynhau taith hyd lannau Gogledd Cymru, a'r môr yn las o'r Fenai i'r Ddyfrdwy. Tyrfa fawr yn byrlymu allan o Orsaf Lime Street, a ninnau'n dau yn dilyn y dorf am y tram. Edrychai fel bod pawb yn Lerpwl y pnawn hwnnw yn mynd i Goodison Park.

“Tyrd,” meddai Griff, “mi awn ni i'r stand, dim ond deunaw ydi o.”

Gwthio'n ffordd i mewn, a darganfod ein hunain yn eistedd uwchben un o'r gôls, a'r cae gwyrdd ffres wedi'i amgylchu gan filoedd o wynebau.

Doedd dim rhaid aros yn hir – “Hwre” fawr, a'r ddau dîm yn rhedeg allan, un tu ôl i'r llall, crysau glas a chrysau coch a gwyn, a delwau papur newydd yn troi yn dduwiau byw o flaen ein llygaid.

Do fe wnaethom fwynhau'r gêm – roedd pêl-droed yn wahanol pryd hynny, ac er i mi gael fy swyno gan Dafydd Annie Dora, Dafydd Jên Ann, Rôl Bach ac arwyr lleol eraill am flynyddoedd, roedd hwn yn lwyfan llawer mwy llewyrchus. Mor bleserus oedd gwyllo Dixie yn penio'r bêl i lawr at draed ei gyd-chwaraewyr, edmygu'r ffordd roedd Alex James yn cadw'r bêl wrth ei draed, a gallu Milne i ganoli'r bêl i'r man iawn. Sgôr – Everton 1, Arsenal 3. Roeddem wedi cael gwledd.

“Gad i ni gerdded yn ôl,” Griff eto hefo'i syniadau, “dydi hi ddim ymhell, a dim ond dilyn leins y tram

sy raid i ni.” Dau ddiniwed iawn oeddem, yn ffeindio'n hunain yn cerdded hyd Scotland Road dan wres haul Medi, a sylwi bod bron pob adeilad un ai'n dafarn neu'n siop chips. Mynd i mewn i un oedd yn edrych yn weddol olygus, a thalu am blatiad o bysgod a sgloodion. Heb fwyta ers amser brecwast, roedden ni'n dau bron llwgu. Eistedd i lawr wrth rhyw fwrdd teils gwyn gydag awch. “Boys, can I have the salt and vinegar?”

Edrych i fyny mewn syndod a gweld rhyw ddyn yn sefyll gerllaw ac yn gafael yn y ddau offer. Griff yn codi ac yn 'i heglu hi drwy'r drws.

“Be sy'n bod, ble wyt ti'n mynd?” Neidiais allan ar ei ôl.

“Welaist ti drwyn hwnna'n rhedeg? Alla'i ddim byta'n fana.” A ffordd â ni.

Wedi noson yn y pictiws, – pictiws ac organ go iawn, troi i rhyw Far Lleftrith ac yfed tua chwart o 'filk shakes' bob yr un. Yna y daith gysglyd yn ôl yn hanner tywyllwch swnllyd y trêrn.

“Welaist ti hwn a hwn, yn gwneud fel hyn a fel hyn.” Roedd Griff yn gynlluniau i gyd. “Allat ti a fi 'neud hynna.” Roedden ni wedi chwarae pêl-droed gyda'n gilydd am flynyddoedd, ac roedden ni'n mynd i wneud gwyrtiau yn y dyfodol. Mae'r ifanc bob amser â'u llygaid ar yfory.

Roedden ni yn y Cwm cyn sylweddoli'r amser, a Griff a'i “Awn ni i weld Everton eto. Wela'i di nos Lun,” yn diflannu i dduwch blinedig y Fricsan.

Fu mi 'rioed yn Goodison Park wedyn. Ymhen tair wythnos roedd Dixie Dean wedi colli 'i le i'w ddisgybl ifanc Tommy Lawton, ac yn y tymor hwn, dechreuodd tîm mawr Arsenal wasgaru. Ein cynlluniau ni – wel rhwng coleg, gwaith a rhyfel, cyfle bach iawn gawsom. Roedd Griff Bevan yn y Gwarchodlu Cymreig yn Ffrainc a ddaeth e ddim yn ôl.



RAS FYNYDD IEUENCTID RHEDWYR ERYRI

Bnawn Sadwrn, Hydref 2 am 1.30 bydd ras fynydd ieuenctid Rhedwyr Eryri yn cychwyn o Hostel Ieuenctid Llanberis. Mae pedair ras yn cael eu cynnal yr un pryd i fechgyn a genethod mewn gwahanol grwpiau oedran o dan 18 oed. Bydd y pellter yn amrywio yn ôl yr oed.

Mae'r ras yn dilyn yr hen ffordd o Llyn Celyn i fyny tua Llyn Cwmdaethwch, yn croesi afon Hwch ac yna'n dilyn ymlaen drwy Fwlch Masgwrn ac i gopa Moel Cynghorion. Bydd y rhai dan 11 yn rhedeg 3 milltir a hanner yn unig, y rhai dan 13 a than 15 yn rhedeg 5 milltir, a'r rhai dan 18 yn gorfod rhedeg yr holl ffordd i ben Moel Cynghorion ac yn ôl – pellter o 7 milltir.

Disgwylir llawer o fechgyn a genethod lleol i redeg, ac oes gan unrhyw un ddiddordeb mewn cystadlu gellir cysylltu

â Mr Ken Jones, 6 Blaen Ddôl, Llanberis. Y tâl cystadlu fydd 75c (neu £1 ar y diwrnod).

Os bydd y tywydd yn ffafriol, mae'n werth cerdded i fyny i'r ucheldir i wyllo'r ras ac i roi cefnogaeth i'r rhedwyr ieuanc. Ac os bydd amser ar eich dwylo tra byddwch yn disgwyl i'r rhedwyr ddychwelyd, wel mae digonedd o fwyar duon ar y gwrychoedd ac fe fydd awyr iach y mynydd wedi codi archwaeth am gacen fwyar duon arnoch!

CYMDEITHAS PYSGOTWYR SEIONT, GWYRFAI A LLYFNI

I fyny at ganol mis Awst, mae'r tywydd wedi dal i fod yn eithriadol o sych, a'r afonydd yn dal yn isel, ond er hynny, mae Seiont a Llyfni yn llawn o Sewin, y nifer gorau ers llawer blwyddyn meddai llawer un. Ond y cwestiwn yw, ble mae'r Eog? Toes dim ond rhyw ddrynaid o'r rhain wedi eu dal a'r cwbl ar y Llyfni. Gwelais un da iawn o ddeuddeg pwys gan Edwin Lewis o Benygroes a chlywais hefyd fod Wally Williams o Lanllyfni wedi cael tri ond dim sôn am eu pwysau.

Mae nifer da o Sewin wedi eu dal, ond 'rwy'n siŵr pe buasai mwy yn ceisio dal y rhain yn y nos, y buasai llawer mwy wedi dod i'r rhwyd, ond yn ôl pob golwg, mae pawb yn ceisio yng ngwaelod yr afonydd. Ar y Seiont, mae hyn yn meddwl o Lyn Engan i Lyn Du, a rhai o'r hogia' sydd wedi cael hwyl dda arni yw Ken Hughes, Norman Dooley, Tom Christy a John Childs o Gaernarfon.

Ond y peth rhyfedd yw bod pawb am aros yn ei gynefin, ac yno 'rwyf innau wedi bod yng nghyffiniau Crawia, lle cefais helfa dda o Sewin i fyny i ddau bwys a hanner mewn rhyw bedair noson, a choeliwch neu beidio, 'toedd neb arall ar gyfyl y lle, felly mae llawer wedi methu allan.

Yn ystod y cyfnod hyn, tawel fu'r llynnoedd heblaw am Lyn Llanberis, sydd yn dechrau dod ato ei hun ar ôl y gwaith, a pheth braf yw cael dweud fod torgoch da yn cael ei ddal yno

unwaith eto.

Rhai wythnosau'n ôl, rhoddwyd rai cannoedd o frithyll yr enfys yn Llyn y Dywarchen, ac yn ôl pob golwg maent wedi gwneud yn dda gyda llawer, a rhai'n dod i'r bluen, y mwyaf hyd yn hyn yw un ychydig dros dri phwys gan John Roberts o Dalysarn.

Cafwyd rhai cynigion da yn y gystadleuaeth i gael darlun i roi ar fathodyn y Gymdeithas, ac 'roedd y Pwyllgor yn un farn fod tri yn haeddu gwobr, sef Dewi Jones, Gareth Hughes a Dafydd Roberts, y tri o Fethel. Da ynte.

Mae bathodyn modur ar gael yn awr, pris £1.00, – i: 11 Stâd Eryri, Bethel, yn amgaedig gydag amlen, cyfeiriad a stamp.

Bydd bathodyn i'w wnïo ar het neu siaced a 'tie', ar gael cyn bo hir.

GOL: Dylai'r erthygl hon fod yn y rhifyn diwethaf o'r Eco. Ymddiheurwn am hyn.

PENCAMPWYR Y DYFODOL?



Am y tro cyntaf ers rhai blynyddoedd mae tîm ieuenctid yn Llanrug. Dyma'r tîm ar ôl iddynt dderbyn set o ddillad newydd gan Mr J.A. Trevor, Garej Hafod. Gyda'r tîm mae Mr R. Arfon Roberts a Mr W.J. Griffith sy'n gofalu amdanynt.

PENCAMPWYR 1946-47



Tîm Llanrug ar ôl eu gêm olaf yn nhymor 46-47 yn erbyn Llechid Celts. Llun gan Mr Glyn Roberts, Llanrug, aelod o'r tîm.